YSGOL Y GYMRAEG

COFRESTRU 2008

Catalog Modiwlau ar gyfer BA Anrhydedd Sengl a Chydanrhydedd

Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf 2008/2009

PRIFYSGOL CAERDYDD

RHAGLENNI GRADD YSGOL Y GYMRAEG: CYFLWYNIAD CYFFREDINOL

Rhaglenni gradd
Y mae dwy ran i'r rhan fwyaf o raglenni gradd yn y Dyniaethau ym Mhrifysgol Caerdydd, sef i) **Blwyddyn 1** a ii) **Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf**.

Ym **Mlwyddyn 1**, sef cwrs y flwyddyn gyntaf, bydd myfyrwyr y Gymraeg fel rheol yn astudio dau bwnc. Yna, ar ôl cwblhau Blwyddyn 1 yn llwyddiannus, eir ymlaen i **Flwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf**, sef cwrs dwy flynedd lle yr astudir naill ai un pwnc ar gyfer BA Anrhydedd Sengl neu ddau bwnc ar gyfer BA Cydanrhydedd. Bydd myfyrwyr sy'n astudio BA Cydanrhydedd yn y Gymraeg ac iaith fodern (Almaeneg, Eidaleg, Ffrangeg neu Sbaeneg) yn treulio eu trydedd flwyddyn dramor, felly bydd eu pedwaredd flwyddyn hwy yn cyfateb i drydedd flwyddyn myfyrwyr eraill.

Y mae Ysgol y Gymraeg yn cynnig tair rhaglen radd israddedig, sef
i. BA Anrhydedd Sengl yn y Gymraeg;
ii. BA Cydanrhydedd lle y gellir cyfuno'r Gymraeg ag un o nifer o bynciau eraill;
iii. LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg.

Yn y catalog hwn ceir manylion am y modiwlau a fydd ar gael ym Mlwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf y rhaglenni hynny yn ystod Sesiynau 2008/09 a 2009/10. (Bydd Ysgol y Gyfraith yn darparu manylion pellach i'r myfyrwyr hynny sy'n dilyn y radd LLB.)

Modiwlau
Trefn fodiwlar sydd i'r rhaglenni gradd yng Nghaerdydd. Rhennir y flwyddyn academaidd yn ddau semester, Semester yr Hydref a Semester y Gwanwyn, ac ym mhob semester y mae gofyn i fyfyrwyr ddilyn nifer benodol o fodiwlau (sef unedau dysgu hunangynhaliol sy'n rhan o raglen y radd). Ym Mlwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf, y mae nifer o'r modiwlau a gynigir gan Ysgol y Gymraeg yn rhai sengl ac yn cael eu dysgu dros un semester, ond ceir rhai modiwlau dwbl, a'r rheini'n cael eu dysgu dros ddau semester (h.y., dros y flwyddyn academaidd ar ei hyd).

Mae Ysgol y Gymraeg yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o fodiwlau a gynigir i fyfyrwyr. Ceir cnewyllyn o fodiwlau craidd, eang eu hystod, sydd â'r nod o sicrhau sylfaen gadarn yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth. Ochr yn ochr â'r rhain, cynigir nifer helaeth o fodiwlau dewisol sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr arbenigo mewn meysydd sy'n gweddu i'w diddordebau. Er enghraifft, wrth ddethol modiwlau dewisol gellir dilyn trywydd llenyddol, un ai'n ganoloesol neu'n ddiweddar, neu drywydd ieithyddol, neu gyfuniad o fodiwlau ar draws y meysydd hynny.

Mae gennym nifer o fodiwlau blaengar, megis 'Cynllunio Ieithyddol', 'Llenyddiaeth Plant', 'Merched a Llên yn y Cyfnod Modern', 'Cymraeg i Oedolion', 'Theori a Beirniadaeth Lenyddol', 'Iaith, Gwleidyddiaeth a Gwrthdaro', ac 'I Fyd y Faled', yn ogystal â modiwl arloesol ar lên a diwylliant

gwerin sy'n tynnu ar adnoddau dihafal Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Trwy'r cyfan, rhown bwyslais ar fod yn gyfoes ac ar gynnig dewis a fydd yn rhoi rhaglen radd o safon academaidd uchel yn ogystal â bod yn berthnasol i ofynion galwedigaethol.

Mae elfen gref o hyblygrwydd yn bosibl oddi mewn i'r drefn fodiwlar, ac yma yn Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yr ydym wedi diogelu'r elfen honno. Mae cryn ryddid yn y dewis o fodiwlau, a phrin iawn yw'r modiwlau hynny sy'n gofyn am ddilyn modiwlau rhagofynnol neu ragarweiniol cyn ymuno â hwy. Wedi dweud hynny, rhaid pwysleisio fod angen i fyfyrwyr feddwl yn ofalus iawn wrth ddewis eu modiwlau a chadw mewn cof yr angen am gynllunio cwrs a fydd yn briodol a chydlynol. I'r perwyl hwnnw, dylai myfyrwyr ymgynghori â'u tiwtoriaid personol cyn gwneud eu dewis terfynol.

Lefelau
Mae i bob modiwl ei lefel. Y mae'r holl fodiwlau a gynigir gan Ysgol y Gymraeg yn y flwyddyn gyntaf ar Lefel 1. Mewn rhai rhaglenni gradd, y mae rhai modiwlau yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf ar Lefel 2; ond yn Ysgol y Gymraeg, ac eithrio rhai modiwlau gloywi iaith gorfodol, y mae holl fodiwlau'r ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf ar Lefel 3.

Asesu
Rhoddir marciau ar gyfer pob modiwl, a bydd marciau pob modiwl ym Mlwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf yn cyfrannu at ddosbarth terfynol y radd. Gydag ychydig eithriadau, asesir pob modiwl erbyn diwedd y semester y cwblhawyd ef ynddo. Asesir tua hanner modiwlau'r Ysgol drwy arholiad/profion dosbarth, a'r gweddill trwy draethawd/gwaith cwrs/ffolio. Mewn rhai achosion asesir modiwlau trwy gyfuniad o draethawd (neu waith cwrs) ac arholiad (neu brofion dosbarth). Fel arfer, disgwylir i o leiaf 40% o raglen radd pob myfyriwr ym Mlwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf gael ei asesu trwy arholiad (neu brofion dosbarth), a dylid cadw hynny mewn cof wrth ddewis modiwlau.

Credydau
Yn ogystal â chael marc am bob modiwl, bydd myfyrwyr hefyd yn ennill credydau ar gyfer pob modiwl y byddant wedi llwyddo ynddo. Am bob modiwl sengl a fydd yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus, enillir 10 credyd, ac 20 credyd am bob modiwl dwbl. Disgwylir i fyfyrwyr ennill 120 o gredydau mewn blwyddyn academaidd lawn, a chael cyfanswm o 360 o gredydau ar y lefelau priodol er mwyn ennill gradd anrhydedd. Gwelir, felly, fod yn rhaid dilyn yr hyn sy'n cyfateb i 12 modiwl sengl ymhob blwyddyn academaidd (sef 6 ymhob semester fel arfer). Yn arferol, felly:

Ni ellir mynd o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 2 heb ennill 120 o gredydau ar Lefel 1.

Ni ellir mynd o Flwyddyn 2 i'r Flwyddyn Olaf heb ennill 120 o gredydau ar Lefel 2/3.

O'r herwydd, y mae'n hanfodol pasio'r holl fodiwlau a astudir ym Mlwyddyn 1 ac ym Mlwyddyn 2.

CANLLAWIAU YNGHYLCH COFRESTRU
AR GYFER SESIWN 2008/09

Cynhelir blaen-gofrestru ar gyfer yr holl fyfyrwyr sydd yn bwriadu dilyn cyrsiau Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf yn ystod Sesiwn 2008/09 **ddydd Iau, 8 Mai 2008** yn ystafelloedd Ysgol y Gymraeg. Rhwng 9.30 a 10.00, yn Ystafell 1.69, bydd aelodau o'r staff yn rhoi cyflwyniadau byr i'r modiwlau y byddant yn gyfrifol am eu dysgu. Yna, bydd myfyrwyr sydd **ym Mlwyddyn 1 ar hyn o bryd** ac yn bwriadu astudio'r Gymraeg ym Mlwyddyn 2 yn blaen-gofrestru gyda'u tiwtoriaid personol rhwng 10.00 a 11.00 (yn ystafell y tiwtor), a myfyrwyr sydd **ym Mlwyddyn 2 ar hyn o bryd** yn blaen-gofrestru gyda'u tiwtoriaid personol rhwng 11.30 a 12.30 (yn ystafell y tiwtor).

Yna, yn ystod y pedwar diwrnod o gofrestru ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd **(23–26 Medi 2008)** bydd holl fyfyrwyr Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf yn cofrestru'n ffurfiol, ac yn cadarnhau (neu yn newid) y dewisiadau a wnaethpwyd wrth flaen-gofrestru.

Nid yw'r dewis o fodiwlau a wneir yn y broses o flaen-gofrestru a chofrestru yn clymu myfyriwr yn gwbl derfynol. Bydd modd newid modiwl dewisol **hyd ddiwedd ail wythnos** y semester y dysgir y modiwl ynddo; ond ni chaniateir unrhyw newid modiwlau o'r fath heb fod y myfyriwr wedi llenwi'r ffurflen briodol (sydd i'w chael yn Swyddfa'r Ysgol) a chael honno wedi ei harwyddo naill ai gan Bennaeth yr Ysgol (Yr Athro Sioned Davies), neu gan Gadeirydd y Bwrdd Astudiaethau (Dr Dylan Foster Evans), neu gan y Swyddog Cofrestru. Swyddog Cofrestru'r Ysgol yw **Dr E. Wyn James**, a dylid ymgynghori ag ef os bydd unrhyw anawsterau yn codi.

Er mwyn cynorthwyo myfyrwyr yn eu dewis, gosodir yn nhudalennau nesaf y catalog hwn restr o'r modiwlau a gynigir yn Sesiynau 2008/09 a 2009/10, ynghyd â disgrifiadau o'r modiwlau hynny, **yn nhrefn yr wyddor.**

Gofynnir i fyfyrwyr nodi eu dewisiadau yn glir ar y ffurflen dewis-modiwlau sy'n cyd-fynd â'r catalog hwn, ac yna gadael y ffurflen gyda'u tiwtor personol wrth flaen-gofrestru. **Er bod yr Ysgol yn cadw cofnod o ddewisiadau myfyrwyr, cynghorir pob myfyriwr i gadw ei gofnod ei hun o'r modiwlau y mae wedi eu dewis.**

Gofynnir i fyfyrwyr a fydd yn cofrestru ar gyfer **Blwyddyn 2** ddewis modiwlau ar gyfer Sesiwn 2009/10 **yn ogystal â** Sesiwn 2008/09.

Rhaid i fyfyrwyr **Anrhydedd Sengl** ddilyn yr hyn sy'n cyfateb i **6** modiwl sengl ymhob semester. Y mae'r modiwlau a restrir gyntaf ymhob semester yn y rhestr o'r modiwlau ar dudalen 6/7, sef y modiwlau gloywi iaith a'r modiwlau craidd, yn rhai **gorfodol** iddynt.

Rhaid i fyfyrwyr **Cydanrhydedd** ddilyn yr hyn sy'n cyfateb i **3** modiwl sengl ymhob semester. Y mae'r modiwlau yn yr adran 'modiwlau gloywi iaith' yn rhai **gorfodol** iddynt. I fyfyrwyr cydanrhydedd, modiwlau **dewisol** yn hytrach na gorfodol yw'r modiwlau yn yr adran 'modiwlau craidd'.

Yn ogystal â'r modiwlau a restrir yma, caniateir i fyfyrwyr Anrhydedd Sengl ddewis modiwlau rhydd a gynigir gan adrannau/ysgolion eraill yn y Brifysgol **hyd at gyfanswm o 40 credyd** (sydd gyfwerth â 4 modiwl sengl). Ceir manylion am y modiwlau rhydd yn y Catalog Modiwlau Rhydd, sydd ar gael yn Swyddfa'r Ysgol ac ar wefan y Brifysgol.

Wrth ddewis modiwlau, dylai myfyriwr sicrhau fod o leiaf 40% o'i raglen radd ym Mlwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf i'w asesu trwy arholiad/profion dosbarth.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rheoliadau sydd ynghlwm wrth fodiwlau'r Ysgol a'r rhaglenni gradd BA Anrhydedd Sengl/Cydanrhydedd yn y Gymraeg, ynghyd â manylion pellach am y broses gofrestru, trwy gysylltu â Swyddfa'r Ysgol.

RHYBUDD PWYSIG

Dylid nodi y gall y modiwlau a restrir yma gael eu newid, eu gohirio neu eu dileu. Gall hynny ddigwydd cyn i fyfyrwyr eu dewis neu ar ôl hynny, ac am unrhyw reswm. Y mae, felly, elfen o ansicrwydd yn newis y myfyrwyr o'u modiwlau. Gall modiwlau gael eu newid, eu gohirio neu eu dileu am fod nife roedd annigonol o fyfyrwyr yn cofrestru ar eu cyfer neu am fod aelod o'r staff yn newid swydd neu ddyletswyddau. Nid yw'r rhestr hon o resymau yn hollgynhwysfawr. Nid yw Prifysgol Caerdydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gyfnewidiadau neu ddileadau o'r fath.

RHESTR O'R MODIWLAU
a gynigir ar gyfer Blwyddyn 2 a Blwyddyn Olaf y rhaglenni gradd BA Anrhydedd Sengl/Cydanrhydedd yn y Gymraeg yn ystod Sesiynau 2008/09 a 2009/10

Yn y rhestr modiwlau isod defnyddir y llythrennau canlynol i ddynodi'r dulliau asesu: T = Traethawd (neu waith cwrs); A = Arholiad (neu brofion dosbarth); T/A = Traethawd (neu waith cwrs) + arholiad (neu brofion dosbarth)

Mae pob blwch yn y rhestr yn cyfateb i 10 credyd.
Felly rhaid i fyfyrwyr Anrhydedd Sengl dicio 6 blwch ymhob semester.

MODIWLAU SESIWN 2008/09
Semester yr Hydref 2008/09

Modiwlau Gloywi Iaith (gorfodol i bawb)
Blwyddyn 2

CY2255	Cymraeg Cyfoes **[Iaith Gyntaf]**	T	☐
CY4004	Sgiliau Cyfathrebu Uwch *(modiwl dwbl)* **[Ail Iaith]**	T/A	☐
CY4005	Gloywi Pellach **[Ail Iaith**]	T/A	☐

Blwyddyn Olaf

CY4009	Cymraeg y Gweithle **[Iaith Gyntaf ac Ail Iaith]**	T/A	☐

Modiwlau Craidd (gorfodol i fyfyrwyr Anrhydedd Sengl; dewisol i rai Cydanrhydedd)

CY3260	Cyflwyniad i Lenyddiaeth yr Oesoedd Canol *(modiwl dwbl)*	T/A	☐
CY3488	Cyflwyniad i Lenyddiaeth yr Ugeinfed Ganrif *(modiwl dwbl)*	T/A	☐

Modiwlau Dewisol

CY3562	Pedeir Keinc y Mabinogi	T	☐
CY3421	Dafydd ap Gwilym	A	☐
CY3835	Williams Pantycelyn a'r Emyn	T	☐
CY3617	Merched a Llên yn y Cyfnod Modern	A	☐
CY2345	Cyflwyniad i Astudiaethau Gwerin	T	☐
CY3355	Cyfieithu Proffesiynol **[bl. 2 iaith gyntaf a bl. olaf ail iaith yn unig]**	A	☐
CY2124	Ysgrifennu Creadigol *(modiwl dwbl)*	T/A	☐
CY2126	Blas ar Ymchwil *(modiwl dwbl)* **[bl. olaf yn unig]**	T	☐

Modiwl Rhydd Dewisol

CY4011	Introduction to Irish 1 **[anrhydedd sengl yn unig]**	A	☐

Semester y Gwanwyn 2008–09

Modiwlau Gloywi Iaith (gorfodol i bawb)
Blwyddyn 2

CY4004	Sgiliau Cyfathrebu Uwch *(ail ran y modiwl dwbl)* **[Ail Iaith]**	T/A	☐

Modiwlau Craidd (gorfodol i fyfyrwyr Anrhydedd Sengl; dewisol i rai Cydanrhydedd)

CY3260	Cyflwyniad i Lenyddiaeth yr Oesoedd Canol *(ail ran y modiwl dwbl)*	T/A	☐
CY3488	Cyflwyniad i Lenyddiaeth yr Ugeinfed Ganrif *(ail ran y modiwl dwbl)*	T/A	☐

Modiwlau Dewisol

CY3422	'Y Ganrif Fawr'	A	☐
CY3540	Cymru ar Daith: Llên Teithio Gymraeg	T	☐
CY3598	Sosioieithyddiaeth	A	☐
CY3595	Cymdeithaseg yr Wyddeleg	T	☐
CY3324	Theori a Beirniadaeth Lenyddol	T	☐
CY3633	Llenyddiaeth Plant	A	☐
CY2124	Ysgrifennu Creadigol *(ail ran y modiwl dwbl)*	T/A	☐
CY2126	Blas ar Ymchwil *(ail ran y modiwl dwbl)* **[bl. olaf yn unig]**	T	☐

Modiwl Rhydd Dewisol

CY4013	Introduction to Irish 2 **[anrhydedd sengl yn unig]** (*Modiwl Rhagarweiniol:* CY4011 Introduction to Irish 1)	A	☐

MODIWLAU SESIWN 2009–10

Semester yr Hydref 2009–10

Modiwlau Gloywi Iaith (gorfodol i bawb)

Blwyddyn 2

CY2255	Cymraeg Cyfoes **[Iaith Gyntaf]**	T	☐
CY4004	Sgiliau Cyfathrebu Uwch *(modiwl dwbl)* **[Ail Iaith]**	T/A	☐
CY4005	Gloywi Pellach **[Ail Iaith**]	T/A	☐

Blwyddyn Olaf

CY4009	Cymraeg y Gweithle **[Iaith Gyntaf ac Ail Iaith]**	T/A	☐

Modiwlau Craidd (gorfodol i fyfyrwyr Anrhydedd Sengl; dewisol i rai Cydanrhydedd)

CY2166	Cyflwyniad i Hanes yr Iaith *(modiwl dwbwl)*	T/A	☐
CY2318	Dadeni a Diwygiad 1550–1900 *(modiwl dwbwl)*	T/A	☐

Modiwlau Dewisol

CY3355	Cyfieithu Proffesiynol	A	☐
CY2468	Llên y Ddinas	T	☐
CY2617	Y Canu Arwrol	A	☐
CY2670	Gwleidyddiaeth a Phropaganda yn Llenyddiaeth yr Ugeinfed Ganrif	T	☐
CY3404	Y Ferch yn yr Oesoedd Canol	T	☐
CY3591	Iaith, y Ddinas a Chymdeithas	T	☐
CY3951	Rhyddiaith Ddiweddar	A	☐
CY2123	Sgriptio	T/A	☐
CY2126	Blas ar Ymchwil *(modiwl dwbl)* **[bl. olaf yn unig]**	T	☐

Semester y Gwanwyn 2009–10

Modiwlau Gloywi Iaith (gorfodol i bawb)

Blwyddyn 2

CY4004	Sgiliau Cyfathrebu Uwch *(ail ran y modiwl dwbl)* **[Ail Iaith]**	☐

Modiwlau Craidd (gorfodol i fyfyrwyr Anrhydedd Sengl; dewisol i rai Cydanrhydedd)

CY2166	Cyflwyniad i Hanes yr Iaith *(ail ran y modiwl dwbl)*	T/A	☐
CY2318	Dadeni a Diwygiad 1550–1900 *(ail ran y modiwl dwbl)*	T/A	☐

Modiwlau Dewisol

CY2126	Cynllunio Ieithyddol	T	☐
CY3384	Cymraeg i Oedolion	T	☐
CY2349	I Fyd y Faled	A	☐
CY	Hanes y Ddrama	A	☐
CY2678	Saunders Lewis	A	☐
CY3447	Y Chwedl Arthuraidd	A	☐
CY3593	Iaith, Gwleidyddiaeth a Gwrtharo	A	☐
CY2123	Sgriptio *(ail ran y modiwl dwbl)*	T/A	☐
CY2126	Blas ar Ymchwil *(ail ran y modiwl dwbl)* **[bl. olaf yn unig]**	T	☐

DISGRIFIADAU O'R MODIWLAU

a gynigir ar gyfer Blwyddyn 2 a'r Flwyddyn Olaf y rhaglenni gradd BA Anrhydedd Sengl/Cydanrhydedd yn y Gymraeg yn ystod Sesiynau 2008/09 a 2009/10 (AC EITHRIO'R MODIWLAU GLOYWI IAITH GORFODOL)

(fe'u rhestrir yn ôl teitl yn nhrefn yr wyddor;
modiwlau sengl ydynt oni nodir yn wahanol)

CY2126 BLAS AR YMCHWIL
(Modiwl ar gyfer myfyrwyr y Flwyddyn Olaf yn unig. Derbynnir myfyrwyr i'r modiwl hwn ar sail cyfweliad.)

CYDLYNYDD: Yr Athro Sioned Davies

NODAU'R MODIWL: Rhoi profiad i'r myfyrwyr o astudio'n feirniadol, ac mewn dyfnder, bwnc o'u dewis, a thrwy hynny eu cyfarwyddo i drefnu eu hamser yn effeithiol, i ddefnyddio ystod eang o gronfeydd data a ffynonellau llyfryddol, i ymgyfarwyddo â methodoleg ymchwil, ac i ysgrifennu a chyflwyno eu gwaith yn broffesiynol.

DISGRIFIAD BYR: Yn y modiwl hwn ceir profiad o wneud ymchwil trwy lunio traethawd estynedig ar bwnc arbennig dan ofal cyfarwyddwr. Cynhelir gweithdai rhagarweiniol ar sut i baratoi traethawd estynedig ac yna mynychir tiwtorialau un-wrth-un gyda chyfarwyddwr o blith staff yr Ysgol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- seminarau a gweithdai rhagarweiniol ar baratoi traethawd estynedig
- tiwtorialau gyda chyfarwyddwr i drafod, casglu a threfnu gwybodaeth, cynllunio'r traethawd, drafftio, prawfddarllen.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos ymwybyddiaeth o'r camau sydd eu hangen wrth lunio traethawd estynedig sy'n dilyn confensiynau academaidd cydnabyddedig;
- gwybod sut i drin ystod o ffynonellau gwybodaeth a chronfeydd data yn feirniadol;
- dangos gwybodaeth fanwl o faes arbennig;
- casglu, gwerthuso a dadansoddi gwybodaeth o wahanol ffynonellau;
- cynllunio, trefnu a chyflwyno traethawd hir;
- defnyddio pecynnau meddalwedd sy'n ymwneud â'r Gymraeg, e.e. CySill a CysGair;
- ysgrifennu darn o waith estynedig mewn Cymraeg graenus;
- monitro a gwerthuso cynnydd yn nhermau targedau penodol (rheoli amser) drwy lunio traethawd ac iddo amserlen benodedig;
- paratoi dogfen estynedig gan ddefnyddio pecyn prosesu geiriau;
- golygu a phrawfddarllen darn o waith estynedig;
- gweithio'n annibynnol;
- datrys problemau.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

BERRY, R. 2000. *The Research Project: How to write it*. London: Routledge

CHAMBERS, Ellie & Andrew NORTHEDGE 1997. *The Arts Good Study Guide.* Milton Keynes: Open University

MANEY, A.S. & R.L. SMALLWOOD eds 1995. *MHRA Style Book: Notes for Authors, Editors, and Writers of Theses*. London: Modern Humanities Research Association

PECK, John & Martin COYLE 1999. *The Student's Guide to Writing*. London: Macmillan

DULLIAU DYSGU: Seminarau a gweithdai rhagarweiniol, tiwtorialau.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 10,000 o eiriau (100%)

CY2617 Y CANU ARWROL

DARLITHYDD: Dr Dylan Foster Evans

NODAU'R MODIWL: Ar ddiwedd y modiwl hwn bydd y myfyrwyr:

- yn gyfarwydd â rhai o brif gerddi'r Canu Arwrol yn ogystal â cherddi perthnasol o'r canu englynol cynnar;
- yn gallu darllen y cerddi hyn gan ddefnyddio golygiadau safonol;
- yn gyfarwydd â damcaniaethau ynghylch yr 'oes arwrol';
- yn gyfarwydd â chonfensiynau golygu'r hengerdd.

DISGRIFIAD BYR: Ai'r Canu Arwrol yw man cychwyn ein traddodiad llenyddol? Bwriad y modiwl yw astudio'n fanwl gasgliad o'r farddoniaeth hynaf yn yr iaith Gymraeg, sef gwaith Aneirin a Thaliesin, ynghyd â gweithiau eraill sy'n berthnasol i'r thema arwrol, megis 'Ymddiddan Llywarch a Gwên' a 'Marwnad Gwên' o'r canu englynol cynnar. Byddwn yn edrych ar gwestiynau elfennol megis sut y mae mynd ati i ddyddio'r cerddi a sut y mae ceisio pennu pwy yn union oedd yr awduron. Rhoddwn gryn sylw i ddelfrydau arbennig y canu, yn enwedig yng nghyd-destun y cysyniad o 'lenyddiaeth arwrol'. Edrychwn ar y canu mewn perthynas â hanes Cymru ac mewn perthynas â llenyddiaethau eraill ledled Ewrop.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
Canu Aneirin;
Canu Taliesin;
Canu Llywarch;
y cysyniad 'Canu Arwrol';
y berthynas rhwng y cyfrwng llafar ac ysgrifenedig.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:

- adnabod detholiad o gerddi mewn arholiad;
- adnabod rhai o brif themâu barddoniaeth arwrol;
- adnabod rhai o brif dechnegau'r 'Canu Arwrol';
- asesu rhai o'r prif ddamcaniaethau ynghylch barddoniaeth arwrol;

- trafod cyd-destun y canu yn nhermau llenyddiaethau eraill a/neu dystiolaeth hanesyddol;
- gwerthfawrogi cefndir llafar a pherfformiadol y canu;
- defnyddio golygiadau safonol;
- dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol;
- dadlau yn rhesymegol;
- trin damcaniaethau gwahanol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

Golygiadau

ROWLAND, Jenny ed. 1990. *Early Welsh Saga Poetry*. Cambridge: D. S. Brewer
WILLIAMS, Ifor gol. 1938. *Canu Aneirin*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
— gol. 1960. *Canu Taliesin*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
— gol. 1970. *Canu Llywarch Hen*. 3ydd argraffiad, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
— ed. 1987. *The Poems of Taliesin, English Version by J. E. Caerwyn Williams*. Dublin: DIAS

Astudiaethau

FINNEGAN, Ruth 1977. *Oral Poetry: its nature, significance and social context.* Cambridge: Cambridge University Press
JARMAN, A. O. H. & G. R. HUGHES eds. 1992. *A Guide to Welsh Literature I*. Revised edition, Cardiff: University of Wales Press
JARMAN, A. O. H. 1981. *The Cynfeirdd*. Cardiff: University of Wales Press
ROBERTS, B. F. ed. 1988. *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin*. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY3355 CYFIEITHU PROFFESIYNOL

(Yn 2008/09 bydd y modiwl hwn ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 2 iaith-gyntaf a myfyrwyr Blwyddyn Olaf ail-iaith yn unig. Derbynnir myfyrwyr i'r modiwl hwn ar sail cyfweliad.)

DARLITHYDD**:** I'w bennu

NODAU'R MODIWL: Ar ddiwedd y modiwl hwn bydd y myfyrwyr yn gallu:
- defnyddio amrediad o'r technegau sylfaenol sy'n angenrheidiol wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

DISGRIFIAD BYR: Bwriad y modiwl hwn yw rhoi cyflwyniad elfennol i gyfieithu proffesiynol. Mae mwy o gyfleoedd am swyddi yn y maes hwn nag erioed o'r blaen, ac mae'r galw am gyfieithwr da ar gynnydd. Bydd y modiwl hwn, felly, yn cyflwyno'r technegau sylfaenol y mae eu hangen ar gyfieithwyr da. Bydd cyfle i'r myfyrwyr baratoi cyfres o gyfieithiadau yn ymwneud â meysydd gwahanol a fydd yn berthnasol i waith y cyfieithydd proffesiynol yn y Gymru gyfoes.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR: Bydd y maes llafur yn cynnwys y canlynol:
- cyflwyniad i faes cyfieithu a'r adnoddau sydd ar gael i'r cyfieithydd proffesiynol;
- hanfodion technegol cyfieithu;
- cyfieithiadau o fyd busnes, y sector cyhoeddus, y cyfryngau, a'r celfyddydau.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- gwybod am hanfodion technegol cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg;
- gyfarwydd â'r adnoddau pwysicaf sydd ar gael i'r cyfieithydd proffesiynol.
- adnabod hanfodion cyfieithiadau llwyddiannus.
- ysgrifennu Cymraeg safonol;
- cynhyrchu nifer o gyfieithiadau amrywiol eu harddull o'r Saesneg i'r Gymraeg.
- dangos meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig safonol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
GRIFFITHS, Bruce gyda JONES, Dafydd Glyn gol. 1995 (ac argraffiadau diweddarach). *Geiriadur yr Academi*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
GRUFFUDD, Heini 2005. *Dechrau cyfieithu: llyfr ymarferion i rai sy'n dechrau ymddiddori mewn cyfieithu*. Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg
THOMAS, Peter Wynn 1995. *Gramadeg y Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
Gwefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru: www.cyfieithwyrcymru.org.uk

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a gweithdai

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%)

CY2345 CYFLWYNIAD I ASTUDIAETHAU GWERIN

DARLITHYDD: Dr Siwan Rosser

NODAU'R MODIWL: Ar ddiwedd y modiwl hwn bydd y myfyrwyr:
- yn gwybod am amrywiol gategorïau ym maes llên a bywyd gwerin yng Nghymru (ar lafar ac yn ysgrifenedig);
- yn gyfarwydd â dulliau ethnograffig o gasglu data;
- yn ymwybodol o swyddogaeth llên a bywyd gwerin yn y gymdeithas gyfoes.

DISGRIFIAD BYR: Yn y modiwl hwn ceir braslun o brif gategorïau astudiaethau gwerin wedi eu gosod yn eu cefndir cymdeithasol, hanesyddol, a damcaniaethol. Ymdrinnir â swyddogaeth a pherthnasedd llên gwerin i'r gymdeithas gyfoes a chyflwynir y myfyrwyr i ddulliau casglu yn y maes.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR: Bydd y maes llafur yn cynnwys y testunau a ganlyn:
a) Cyflwyniad i brif *genres* astudiaethau gwerin—*genres* naratif, *genres* llafar, coelion ac arferion gwerin.
b) Yn ogystal â'r agwedd enerig, bydd y modiwl yn astudio'n feirniadol ddatblygiad y maes trwy ganolbwyntio ar ethnolegwyr y 19g a'r 20g.
c) Cyflwynir y myfyrwyr i ddull ethnograffig o gasglu data.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:

- adnabod prif *genres* a chategorïau astudiaethau gwerin;
- dangos ymwybyddiaeth o lên gwerin yn y gymdeithas gyfoes;
- deall natur gyffredinol y traddodiad llafar yng Nghymru;
- asesu'n feirniadol y syniad o draddodiad yn y cyd-destun cymdeithasol;
- gwerthfawrogi hanfodion bywyd diwylliannol Cymru o safbwynt astudiaethau gwerin;
- asesu perthnasedd astudiaethau gwerin i'r gymdeithas gyfoes;
- casglu a dadansoddi gwybodaeth ethnograffig;
- cynhyrchu adroddiad ethnograffig syml;
- asesu damcaniaethau gwahanol;
- dadlau yn rhesymegol;
- cywain gwybodaeth a'i gyflwyno yn drefnus;
- dangos meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig safonol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
Darperir rhestr ddarllen arbennig ar gyfer pob *genre.* Mae'r ddwy gyfrol a ganlyn yn anhepgor:

OWEN, Trefor M. 1991. *A Pocket Guide: The Customs and Traditions of Wales*. Cardiff: University of Wales Press

ORING, Elliott ed. 1986. *Folk Groups and Folklore Genres: An Introduction*. Logan, Utah: Utah State University Press

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Tasg hyd at 2,000 o eiriau gan gynnwys cyflwyniad ethnograffig byr (100%).

CY2166 CYFLWYNIAD I HANES YR IAITH *(modiwl dwbl)*

DARLITHYDD: Dr Diarmait Mac Giolla Chríost

NODAU'R MODIWL:
- cyflwyno amlinelliad o ddatblygiad y Gymraeg o'r cyfnodau cynharaf hyd at y presennol;
- cyflwyno dulliau ar gyfer disgrifio iaith;
- darparu hanfodion y cefndir ieithyddol i fodiwlau llenyddol yr Ysgol.

DISGRIFIAD BYR: Cyflwyniad i ddatblygiad y Gymraeg o'r cyfnodau cynharaf hyd at y presennol yw'r modiwl hwn. Ar ôl trafod cydberthynas y Gymraeg ag ieithoedd eraill Ewrop, ac yn enwedig â'r ieithoedd Celtaidd eraill, byddwn yn olrhain agweddau ar ei hanes dros y canrifoedd. Nodweddion Cymraeg y cyfnod diweddar a gaiff y sylw pennaf a byddwn yn craffu ar y cyfnewidiadau a'r datblygiadau a effeithiodd arni ers y Deddfau Uno. Bydd pwys ar fethodoleg disgrifio amrywiadau ieithyddol a dehongli eu harwyddocâd.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- y Gymraeg yng nghyd-destun yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd eraill;
- yr ieithoedd Celtaidd;
- bras ddatblygiad y Gymraeg o'r Frythoneg;
- cyfnodau'r Gymraeg;

- enghreifftiau o Hen Gymraeg a Chymraeg Canol;
- enghreifftiau o Gymraeg y cyfnod diweddar;
- datblygiad iaith safonol y cyfnod diweddar;
- Cymraeg y presennol.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- adnabod prif nodweddion ieithwedd nifer o gyfnodau'r iaith;
- gwybod am rai o'r dylanwadau a fu ar ieithwedd y cyfnodau hynny;
- asesu gwerth cymharol rhai o'r ymdriniaethau â hanes yr iaith;
- trafod cyd-destun rhai nodweddion ieithyddol yn nhermau ieithoedd eraill a/neu ddigwyddiadau hanesyddol;
- codi gwybodaeth bwrpasol a dibynadwy o wahanol ffynonellau;
- dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol;
- dadlau yn rhesymegol;
- ymdrin â damcaniaethau gwahanol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
CARR, Glenda 1993. *William Owen Pughe*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
DAVIES, Caryl 2000. *Adfeilion Babel*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
DAVIES, Janet 1999. *The Welsh Language*. Cardiff: University of Wales Press
JONES, Robert Owen 1997. *'Hir Oes i'r Iaith': Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*. Llandysul: Gwasg Gomer
LEWIS, Henry 1983 [1931]. *Datblygiad yr Iaith Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (50%) ac arholiad 2 awr (50%).

CY3260 CYFLWYNIAD I LENYDDIAETH YR OESOEDD CANOL
(modiwl dwbl)

DARLITHYDD: Dr Dylan Foster Evans

NODAU'R MODIWL: Ar ddiwedd y modiwl hwn bydd y myfyrwyr:
- yn gyfarwydd â nodweddion gwahanol fathau o destunau o'r Oesoedd Canol, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng rhyddiaith a barddoniaeth;
- yn gallu darllen rhyddiaith a barddoniaeth gan ddefnyddio golygiadau safonol;
- yn gyfarwydd â rhai damcaniaethau ynglyn â sut y mae llenyddiaeth yr Oesoedd Canol yn wahanol i lenyddiaeth ddiweddar.

DISGRIFIAD BYR: Bwriad y modiwl hwn yw rhoi cyflwyniad i lenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Byddwn yn edrych ar ddetholiad o ryddiaith chwedlonol ac anchwedlonol y cyfnod, ac ar ddetholiad o farddoniaeth o'r cyfnod cynharaf hyd at ddiwedd yr Oesoedd Canol. Byddwn yn trafod prif ffurfiau llenyddiaeth y cyfnod hwn ac yn manylu ar y themâu a'r delweddau a ddefnyddid. Rhoddir sylw arbennig i'r delweddau cymdeithasol a gyflwynir yn y llenyddiaeth ac i'r syniad o draddodiad

llenyddol, gan godi cwestiynau megis pwysigrwydd dyddio gweithiau unigol a gwerth priodoli gweithiau i awduron arbennig. Ceisir ateb y cwestiwn 'Pam y mae llenyddiaeth yr Oesoedd Canol yn berthnasol inni heddiw?'

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- detholiad o ganu'r Cynfeirdd, y Gogynfeirdd, a'r Cywyddwyr;
- detholiad o chwedlau'r *Mabinogion;*
- detholiad o ryddiaith anchwedlonol (e.e. y Gyfraith, testunau hanesyddol, testunau crefyddol);
- syniadau am awduraeth;
- llawysgrifau'r cyfnod canol;
- y berthynas rhwng y llafar a'r ysgrifenedig;
- y prif ffurfiau llenyddol.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- adnabod detholiad o gerddi a darnau o ryddiaith mewn arholiad;
- adnabod rhai o brif themâu a ffurfiau barddoniaeth a rhyddiaith yr Oesoedd Canol;
- darllen a deall amrywiaeth o destunau Cymraeg Canol gyda chymorth golygiad safonol, a thrafod y testunau mewn traethawd;
- trafod bywyd diwylliannol a chymdeithasol yr Oesoedd Canol fel y'i portreadir yn llenyddiaeth y cyfnod;
- gwerthfawrogi y berthynas rhwng y cyfrwng llafar a'r cyfrwng ysgrifenedig yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol;
- asesu'n feirniadol rai o'r prif ddamcaniaethau ynglyn â'r berthynas rhwng llenyddiaeth a hanes;
- defnyddio golygiadau safonol;
- dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol;
- dadlau yn rhesymegol;
- asesu damcaniaethau gwahanol;
- dangos meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig safonol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

BROMWICH, Rachel, A. O. H. JARMAN & Brynley F. ROBERTS eds 1991. *The Arthur of the Welsh*. Cardiff: University of Wales Press

DAVIES, Sioned 1995. *Crefft y Cyfarwydd*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

GRUFFYDD, R. Geraint (gol. cyffredinol) 1991–96. Cyfres Beirdd y Tywysogion, 7 cyfrol. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

HUWS, Daniel 2000. *Medieval Welsh Manuscripts*. Cardiff & Aberystwyth: University of Wales Press & National Library of Wales

JARMAN, A. O. H. & G. R. HUGHES eds 1992. *A Guide to Welsh Literature I*. Revised ed., Cardiff: University of Wales Press

JARMAN, A. O. H., G. R. HUGHES & D. JOHNSTON eds 1997. *A Guide to Welsh Literature II*. Cardiff: University of Wales Press

LLOYD, Nesta a Morfydd E. OWEN goln 1986. *Drych yr Oesoedd Canol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

PARRY, Thomas ed. 1962. *The Oxford Book of Welsh Verse*. Oxford: Oxford University Press

ROBERTS, Brynley F. a Morfydd E. OWEN goln 1996. *Beirdd a Thywysogion* Caerdydd ac Aberystwyth: Gwasg Prifysgol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ROWLAND, Jenny ed. 1990. *Early Welsh Saga Poetry*. Cambridge: D. S. Brewer
WILLIAMS, Ifor gol. 1938. *Canu Aneirin*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
— gol. 1951. *Pedeir Keinc y Mabinogi*. Ail argraffiad, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
— gol. 1970. *Canu Llywarch Hen*. 3ydd argraffiad, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
— ed. 1987. *The Poems of Taliesin, English Version by J. E. Caerwyn Williams* Dublin: DIAS
www.dafyddapgwilym.net

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (50%) ac arholiad 2 awr (50%).

CY3488 CYFLWYNIAD I LENYDDIAETH YR UGEINFED GANRIF
(modiwl dwbl)

DARLITHYDD: Dr E. Wyn James a Dr Simon Brooks

NODAU'R MODIWL:
Rhoi cyflwyniad cyffredinol i farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg yr ugeinfed ganrif. (Ni roddir sylw manwl i'r ddrama nac i waith Saunders Lewis yn y modiwl hwn, gan fod modiwlau arbenigol ar eu cyfer).

DISGRIFIAD BYR: Yr ugeinfed ganrif yw un o uchafbwyntiau mawr llenyddiaeth Gymraeg. Yn y modiwl hwn rhoddir cyflwyniad i farddoniaeth a rhyddiaith y ganrif, gan fanylu ar waith rhai o'r awduron amlycaf.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
Cyflwyniad i farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg yr ugeinfed ganrif. Manylir ar waith rhai o'r awduron amlycaf, gan gynnwys T. Gwynn Jones, T. H. Parry-Williams, R. Williams Parry, Gwenallt, D. J. Williams, Waldo Williams, Caradog Prichard, Kate Roberts, Bobi Jones, Islwyn Ffowc Elis, Gwyn Thomas ac Iwan Llwyd.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch rhyddiaith a barddoniaeth yr ugeinfed ganrif a'r ffactorau hanesyddol, cymdeithasol a deallusol a ddylanwadodd arnynt;
- dangos cynefindra â llenyddiaeth feirniadol safonol yn y maes;
- ymateb yn briodol i'r defnydd o iaith ac o'r dychymyg mewn llenyddiaeth;
- gwerthfawrogi a chloriannu rhyddiaith a barddoniaeth yr ugeinfed ganrif;
- trin gweithiau llenyddol yn feirniadol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth;
- gosod rhyddiaith a barddoniaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif yn eu cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a syniadol;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
BOWEN, Geraint gol. 1976. *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif*.

Llandysul: Gwasg Gomer
JOHNSTON, Dafydd ed. 1998. *A Guide to Welsh Literature c.1900–1996*, vol. 6. Cardiff: Univeristy of Wales Press
JONES, R. M. 1987. *Llenyddiaeth Gymraeg 1902–1936*. Cyhoeddiadau Barddas
— 1975. *Llenyddiaeth Gymraeg 1936–1972*. Llandybïe: Christopher Davies
LLYWELYN-WILLIAMS, Alun 1960. *Y Nos, y Niwl a'r Ynys: Agweddau ar y Profiad Rhamantaidd yng Nghymru, 1890–1914*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
ROWLANDS, John 1993. *Ysgrifau ar y Nofel*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
ROWLANDS, John gol. 1992. *Sglefrio ar Eiriau*. Llandysul: Gwasg Gomer

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (50%) a thraethawd hyd at 2,000 o eiriau (50%).

CY3595 CYMDEITHASEG YR WYDDELEG

DARLITHYDD: Dr Diarmait Mac Giolla Chríost

NODAU'R MODIWL:
- Cyflwyno'r myfyrwyr i gymdeithaseg yr Wyddeleg yn Iwerddon yn y cyfnod modern.
- Cymharu sefyllfa gymdeithasol yr Wyddeleg â sefyllfa'r Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd eraill.

DISGRIFIAD BYR: Cyflwyniad i gymdeithaseg yr iaith Wyddeleg gan ganolbwyntio ar y cyfnod modern. Gosodir y datblygiadau hyn mewn cyd-destun cymharol, Celtaidd.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- Cyd-destun yr Wyddeleg yn y cyfnod modern;
- Diffinio cymdeithaseg iaith;
- Ideoleg wleidyddol: cenedlaetholdeb ac unioliaeth;
- Syniadaeth ddeallusol: yr Adfywiad Celtaidd;
- Yr unigolyn a rhyddfreiniad economaidd: tlodi, allfudo, statws;
- Amrywiaeth a globaleiddio: y Teigr Celtaidd, dinasyddiaeth a chwsmeriaeth;
- Y gymhariaeth Gymreig a Cheltaidd.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch cymdeithaseg yr iaith Wyddeleg a'r ffactorau hanesyddol, gwleidyddol a deallusol a ddylanwadodd arni;
- Trafod yn feirniadol gymdeithaseg yr iaith Wyddeleg;
- Dangos cynefindra â ffynonellau cyfeirio safonol yn y maes;
- Trin data a thystiolaeth (gan gynnwys mapiau, tablau a graffiau) yn feirniadol o safbwynt dehongli'r maes;

- Cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- Crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

CORKERY, D. 1956. *The hidden Ireland*. Dublin: Gill
CROWLEY, T. 2000. *The politics of language in Ireland, 1366–1922: a source book*. London: Routledge
DE FREINE, S. 1978. *The great silence: the study of a relationship between a language and nationality*. Dublin: Mercier
DURKACZ, V. E. 1983. *The decline of the Celtic languages*. Edinburgh: Donald
FITZGERALD, G. 2003. *Irish-speaking in the pre-famine period*. Dublin: RIA
HINDLEY, R. 1990. *The death of the Irish language*. London: Routledge
KIBERD, D. 1993*. Synge and the Irish language*. London: Macmillan
MAC PÓILIN, A. ed. 1997. *The Irish language in Northern Ireland*. Belfast: Ultach Trust
MAGUIRE, G. 1991. *Our own language: an Irish initiative*. Clevedon: Multilingual Matters
NIC CRAITH, M. ed. 1996. *Watching one's tongue: aspects of Romance and Celtic languages*. Liverpool: Liverpool University Press
Ó CUÍV, B. 1969. *A view of the Irish language*. Dublin: Stationery Office
Ó hUALLACHÁIN, C. L. 1994. *The Irish and Irish*. Dublin: Irish Franciscan Provincial Office
O'REILLY, C. 1998. *The Irish language in Northern Ireland*. London: Macmillan
Ó RIAGÁIN, P. 1992*. Language maintenance and language shift as strategies of social reproduction*. Dublin: ITE
Ó TUAMA, S. 1993. *The Gaelic League idea*. Cork: Mercier
Ó TUATHAIGH, M. A. G. 1990. *The development of the Gaeltacht as a bilingual entity*. Dublin: ITE
TOVEY, H. *et al.* 1989. *Why Irish? Language and identity in Ireland today*. Dublin: Bord na Gaeilge

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2000 o eiriau (100%).

CY2284 CYMRAEG I OEDOLION

(Derbynnir myfyrwyr i'r modiwl hwn ar sail cyfweliad.)

DARLITHYDD: Dr Adrian Price

NODAU'R MODIWL:
- olrhain hanes Cymraeg i Oedolion
- cyflwyno'r myfyrwyr i'r gwahanol fethodolegau dysgu sydd yn berthnasol i'r maes
- rhoi ymwybyddiaeth i'r myfyrwyr o wahanol anghenion dysgwyr ac o'r gwahanol ddeunyddiau dysgu sydd ar gael

DISGRIFIAD BYR: Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i'r prif ddamcaniaethau a methodolegau dysgu ynghylch Cymraeg i Oedolion. Gwneir hynny drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau a gweithdai a thrwy arsylwi dosbarthiadau iaith. Byddwch hefyd yn astudio'r ffactorau sy'n allweddol i lwyddiant dosbarth iaith a thrwy hynny yn llunio gweithgareddau iaith sy'n addas i ddysgwyr. Bydd y modiwl hwn yn ddefnyddiol i'r rheini sydd â diddordeb mewn dysgu neu mewn gwaith ymchwil i faes Cymraeg i Oedolion neu gaffael ail iaith.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- Caffael ail iaith
- Hanes Cymraeg i Oedolion
- Methodolegau dysgu
- Llunio gweithgareddau iaith
- Arsylwi dysgu

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- gwybod am ddatblygiad Cymraeg i Oedolion
- gwybod am y prif gyrchddulliau a dulliau dysgu Cymraeg i Oedolion
- bod yn ymwybodol o'r ffactorau sydd yn allweddol i lwyddiant dosbarth iaith
- deall ffyrdd o ddatblygu'r pedair sgìl (siarad, ysgrifennu, gwrando, darllen)
- cloriannu a chymhwyso gwahanol fethodolegau dysgu
- bod yn ymwybodol o wahanol anghenion dysgwyr unigol
- darllen yn annibynnol a chymhwyso gwybodaeth
- gwerthuso effeithiolrwydd cyrchddulliau a methodolegau dysgu drwy arsylwi dosbarthiadau iaith
- meithrin sgiliau cyfathrebu (trafod a chyflwyno gweithgareddau iaith)
- asesu yn feirniadol addasrwydd methodolegau dysgu
- cywain gwybodaeth, ei gyflwyno a'i ddehongli'n drefnus

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
HARMER, Jeremy 2001. *The Practice of English Language Teaching*. London: Longman
JONES, Christine gol., 2000. *Cyflwyno'r Gymraeg*. Llandysul: Gwasg Gomer
JONES, R. M. 2003. *Dysgu Cyfansawdd*. Aberystwyth: CYD (ar wefan CYD: http://www.cyd.org.uk/uploads/dysgu_cyfansawdd.pdf)
PROSSER, Helen 1997. 'Teaching Welsh as a Second Language to Adults'. Yn: Griffiths. M. ed. *The Welsh Language in Education*. Cardiff: WJEC, tt. 95–8
TALFRYN, Ioan 2001. *Dulliau Dysgu Ail Iaith*. Dinbych: Popeth Cymraeg

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau, gweithdai ac arsylwi.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2000 o eiriau (100%).

CY3540 CYMRU AR DAITH: LLÊN TEITHIO GYMRAEG

DARLITHYDD: Dr Diana Luft

NODAU'R MODIWL:
- yn gyfarwydd ag ystod o destunau teithio Cymraeg o'r Oesoedd Canol hyd heddiw
- yn gyfarwydd â rhai o'r prif destunau teithio a ysgrifennwyd am Gymru mewn ieithoedd eraill;
- yn gyfarwydd â'r damcaniaethau beirniadol pwysicaf ym maes llên teithio.

DISGRIFIAD BYR:
Mae'n amlwg o'r hysbysebion 'Croeso Cymru' sy'n britho ein rhaglenni teledu, ac o lyfrau teithio megis The Rough Guide to Wales sy'n llenwi silffoedd ein siopau llyfrau, fod Cymru yn adnabyddus fel cyrchfan deithio. Nid datblygiad diweddar yw hwn: mae teithwyr yn ymweld â Chymru ac yn ysgrifennu am eu profiadau ers canrifoedd. Nid yw'r Cymry wedi ymwrthod â theithio ychwaith: maent hwythau yn ysgrifennu am eu profiadau yn y byd y tu allan i Gymru, ac yn cyfieithu llyfrau teithio o ieithoedd eraill i'r Gymraeg, ers canrifoedd. Er gwaethaf eu gwahaniaethau amlwg, mae'n bosibl ystyried yr holl destunau hyn fel Llên Teithio, a chyflwyniad i Lên Teithio Gymraeg yw'r modiwl hwn. Ynddo byddwn yn ystyried testunau y genre arbennig hwn yn eu cyd-destun generig a hanesyddol, gan geisio darganfod beth a ysgogodd yr awduron a'r cyfieithwyr hyn. Byddwn hefyd yn archwilio'r gofod rhwng realiti lleoedd a'r disgwyliadau y mae teithwyr ac awduron yn eu dwyn atynt.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- testunau teithio a gyfieithwyd i Gymraeg yn yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar megis *Ffordd y Brawd Odrig* a *Dwy Daith i Gaersalem* gan Nathaniel Crouch
- testunau teithio a ysgrifennwyd yn Gymraeg megis *Hanes mordaith y Parch. John Davies (cenhadwr yn Ynys Tahiti) i ynysoedd Rapa, Raivavae, a Tupuai, yn Mor y Deau* gan John Davies a *Crwydro'r Cyfandir* gan W. Ambrose Bebb, yn ogystal ag erthyglau sy'n ymdrin â theithio a fforiad mewn cylchgronau a phapurau newyddion (e.e. teithiau Ross, Franklin, Scott a Shackleton i'r Arctig a'r Antarctig; teithiau allfudwyr i America a Chanada, a.y.b.)
- testunau teithio cyfoes megis *O Afallon i Shangri La* gan Llion Iwan
- testunau o'r Oesoedd Canol a'r cyfnod Modern Cynnar sy'n ymdrin â Chymru o safbwynt yr 'allanolwr' megis *Hanes y Daith trwy Gymru* a *Disgrifiad o Gymru* gan Geraint Gymro a *Hynafiaethau Cymreig: Teithiau yn Nghymru* gan Thomas Pennant
- y *genre* newydd o lyfrau teithio sy'n ymdrin â Chymru yn y Gymraeg megis llyfrau Cyfres Crwydro Cymru.

CANLYNIADAU'R DYSGU:
- dangos gwybodaeth ynghylch llên teithio Gymraeg
- dangos cynefindra â nodweddion y *genre* a'r agweddau beirniadol sy'n perthyn iddo
- deall perthynas y gwahanol destunau â'u cyd-destunau hanesyddol
- dadansoddi'r rhethreg a'r rhagdybiau sy'n nodweddiadol o lên teithio fel *genre*, ac sy'n nodweddiadol o hanesion teithio Cymraeg
- dehongli pwrpasau a negeseuon hanesion teithio heblaw am y rhai arwynebol

- darllen a deall testunau Cymraeg sy'n dyddio i wahanol gyfnodau gyda hyder
- ymdrin â hanesion teithio yn feirniadol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth
- gosod llenyddiaeth Gymraeg (sy'n ymdrin â theithio ynteu sy'n codi ohono) yn ei chyd-destun hanesyddol, beirniadol a syniadol
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol
- defnyddio cysyniadau haniaethol i ymdrin â phynciau a thestunau penodol
- dangos meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig safonol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

BEBB, W. Ambrose 1936. *Crwydro'r Cyfandir*. Wrecsam: Hughes

CROUCH, Nathaniel (pseud. Robert Burton) 1728. *Dwy Daith i Gaersalem*. O gasgliad R.B. yn Saesneg a chyfieithiad William Lewes. cyf. William Lewes. Amwythig: John Rhydderch

DAVIES, John 1827. *Hanes mordaith y Parch. John Davies (cenhadwr yn Ynys Tahiti) i ynysoedd Rapa, Raivavae, a Tupuai, yn Mor y Deau, o Ionawr y 14eg, hyd Mawrth y 5ed, 1826*. Llanfair-Caer-Einion: R. Jones

GERALLT GYMRO 1938. *Hanes y Daith trwy Gymru: Disgrifiad o Gymru*, cyf. Thomas Jones. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

IWAN, Llion 2001. *O Afallon i Shangri La*. Llandysul: Gomer

ODRIG 1929. *Ffordd y Brawd Odrig*, gol. Stephen J. Williams. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

PENNANT, Thomas 1883 [1778–81]. *Hynafiaethau Cymreig: Teithiau yn Nghymru*, cyf. John Rhys. Caernarfon: H. Humphries

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau, a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY2282 CYNLLUNIO IEITHYDDOL

DARLITHYDD: Yr Athro Colin H. Williams

NODAU'R MODIWL:
- cyflwyno modelau ar gyfer disgrifio a dadansoddi cynllunio ieithyddol yng Nghymru;
- trafod ystyr ac ymhlygiadau dwyieithrwydd;
- dadansoddi polisïau ieithyddol yng Nghymru;
- gosod sefyllfa gymdeithasol y Gymraeg yng nghyd-destun eiddo ieithoedd lleiafrifol eraill ac yng nghyd-destun polisïau yr Undeb Ewropeaidd.

DISGRIFIAD BYR: Cyflwyniad i'r cyfnewidiadau cyfredol yn statws y Gymraeg a'i hadnoddau, a'r modd y llunnir polisïau iaith gan asiantau megis y Cynulliad Cenedlaethol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a'r Mentrau Iaith. Gosodir y datblygiadau hyn mewn cyd-destun ehangach drwy ystyried yr hyn sydd yn digwydd mewn gwledydd eraill lle y siaredir ieithoedd lleiafrifol, e.e. Catalonia, Gwlad y Basg, Quebec.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- hanes brwydr y Gymraeg;
- diffinio iaith leiafrifol;
- diffinio cynllunio ieithyddol;
- fframweithiau ar gyfer cynllunio ieithyddol;
- cynllunio statws iaith;
- cynllunio corpws iaith;
- cynllunio ar gyfer caffael iaith;
- sefydlu a chreu polisïau Bwrdd yr Iaith;
- polisïau y Cynghorau Lleol a sefydliadau'r sector gyhoeddus;
- datblygiad y Mentrau Iaith;
- polisïau'r Cynulliad;
- agweddau holistaidd ar gynllunio integreiddiedig, h.y. diwylliant, economi a'r cyfryngau;
- y gymhariaeth ryngwladol: Catalonia, Gwlad y Basg a Quebec; polisïau'r Undeb Ewropeaidd.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch cynllunio ieithyddol a'r ffactorau hanesyddol, cymdeithasol a deallusol a ddylanwadodd arni;
- dangos cynefindra â ffynonellau cyfeirio safonol yn y maes;
- trafod theorïau am gynllunio ieithyddol a chymdeithaseg iaith;
- gosod datblygiadau cyfredol yng Nghymru mewn cyd-destun byd-eang;
- trin data a thystiolaeth (gan gynnwys mapiau, tablau a graffiau) yn feirniadol o safbwynt dehongli'r maes;
- trafod yn feirniadol ddatblygiadau cyfredol ym maes polisïau iaith;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
AITCHISON, J. and H. CARTER 2000. *Language, Economy and Society*. Cardiff: University of Wales Press
FISHMAN, J. A. 1993. *Reversing Language Shift*. Clevedon: Multilingual Matters
FISHMAN, J. A. 2001. *Can Threatened Languages Be Saved?* Clevedon: Multilingual Matters
JENKINS, G. H. gol. 2000. *'Eu Hiaith A Gadwant?'* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
JONES, R. O. 1997. *'Hir Oes i'r Iaith': Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*. Llandysul: Gwasg Gomer
WILLIAMS, C. H. ed. 2000. *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*. Cardiff: University of Wales Press
WILLIAMS, G. and D. MORRIS 2000. *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*. Cardiff: University of Wales Press

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY3447 Y CHWEDL ARTHURAIDD

DARLITHYDD: Yr Athro Sioned Davies

NODAU'R MODIWL:
- olrhain datblygiad y Chwedl Arthuraidd yng Nghymru yn y cyfnod canol;
- dadansoddi'n feirniadol y ffynonellau cynradd a gysylltir â'r Chwedl Arthuraidd;
- cyflwyno'r myfyrwyr i rai o'r prif syniadau yn y maes.

DISGRIFIAD BYR: Pwy oedd Arthur? Yn y modiwl hwn astudir cynnwys a datblygiad y Chwedl Arthuraidd yng Nghymru gan dynnu'n bennaf ar ryddiaith y cyfnod canol. Darperir y sgiliau angenrheidiol i ddarllen y ffynonellau a chyflwynir y prif ddamcaniaethau yn y maes.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
Yn gyntaf, gofynnir a oedd Arthur yn berson hanesyddol. Yna, edrychir ar dystiolaeth yr Hen Ganu, Bucheddau'r Saint, *Trioedd Ynys Prydein, Culhwch ac Olwen*, *Brut y Brenhinedd* (Sieffre o Fynwy), Y Tair Rhamant, a *Breuddwyd Rhonabwy*. Manylir ar rai pynciau arbennig megis y greal, y mab darogan, a chwedl Myrddin.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- gwybod am nodweddion ffynonellau cynradd ym maes y Chwedl Arthuraidd yng Nghymru'r Oesoedd Canol;
- bod yn ymwybodol o'r cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol a roes fodolaeth i'r Chwedl Arthuraidd yng Nghymru;
- gwybod am wahanol ddamcaniaethau yn y maes;
- disgrifio, dadansoddi a gwerthuso ffynonellau cynradd ym maes y Chwedl Arthuraidd;
- cloriannu gwahanol ddamcaniaethau yn y maes;
- trafod y portreadau gwahanol o Arthur mewn mwy nag un testun;
- darllen darnau o Gymraeg Canol drwy ddefnyddio golygiadau a llawlyfrau perthnasol;
- dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol;
- dadlau yn rhesymegol;
- cywain gwybodaeth a'i gyflwyno yn drefnus.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
BROMWICH, Rachel ed. 2006. *Trioedd Ynys Prydein. The Triads of the Island of Britain*. Cardiff: University of Wales Press
BROMWICH, Rachel a D. Simon EVANS goln 1991. *Culhwch ac Olwen*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
BROMWICH, Rachel, A. O. H. JARMAN and Brynley F. ROBERTS eds 1991. *The Arthur of the Welsh*. Cardiff: University of Wales Press
HAYCOCK, Marged 1983–4. ' "Preiddeu Annwn" and the figure of Taliesin', *Studia Celtica*, 18–19, 52–78
HENKEN, E. 1987. *Traditions of the Welsh Saints.* Cambridge: D. S. Brewer
LEWIS, Henry gol. 1942. *Brut Dingestow.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
PADEL, O. J. 2000. *Arthur in Medieval Welsh Literature.* Cardiff: University of

Wales Press
RICHARDS, Melville gol. 1948. *Breudwyt Ronabwy* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
ROBERTS, Brynley F. 1978. 'Rhai o gerddi ymddiddan yn Llyfr Du Caerfyrddin'. Yn Rachel Bromwich ac R. Brinley Jones goln. *Astudiaethau ar yr Hengerdd.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tt. 281–325
KNIGHT, Stephen 1983. *Arthurian Literature and Society.* London: Macmillan
THOMSON, R. L. ed. 1968. *Owein or Chwedyl Iarlles y Ffynnawn*. Dublin: DIAS
— ed. 1997. *Ystoria Gereint uab Erbin* Dublin: DIAS

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%)

CY2318 DADENI A DIWYGIAD 1550–1900 *(modiwl dwbl)*

DARLITHYDD: Dr E. Wyn James a Dr Siwan Rosser

NODAU'R MODIWL:
Amlinellu datblygiad llenyddiaeth Gymraeg rhwng 1550 a 1900.

DISGRIFIAD BYR: Cyflwyniad i brif fannau llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod cyffrous a ffurfiannol rhwng y Dadeni Dysg a'r adfywiad llenyddol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Astudir gwaith llenorion mor amrywiol eu dawn a'u cyfraniad â William Salesbury, Morgan Llwyd, Ellis Wynne, Goronwy Owen, Iolo Morganwg a Cheiriog.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
Amlinelliad o ddatblygiad llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod 1550-1900, gan roi sylw ymhlith eraill i'r canlynol: William Salesbury, William Morgan, Gruffydd Robert, Edmwnd Prys, Morgan Llwyd, Charles Edwards, Ellis Wynne, Theophilus Evans, Morrisiaid Môn, Goronwy Owen, Llên y Methodistiaid, Yr Hen Benillion, Twm o'r Nant, Jac Glan-y-gors, Iolo Morganwg, Robert ap Gwilym Ddu, Ieuan Glan Geirionydd, Islwyn, Ceiriog, Gwilym Hiraethog, Daniel Owen, Emrys ap Iwan.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod 1550-1900 a'r ffactorau hanesyddol, cymdeithasol a deallusol a ddylanwadodd arni;
- dangos cynefindra â ffynonellau cyfeirio safonol yn y maes;
- ymateb yn briodol i'r defnydd o iaith ac o'r dychymyg mewn llenyddiaeth;
- gwerthfawrogi a chloriannu llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod 1550-1900;
- trin gweithiau llenyddol yn feirniadol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth;
- gosod llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod 1550-1900 yn ei chyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a syniadol;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

BOWEN, Geraint gol. 1970. *Y Traddodiad Rhyddiaith.* Llandysul: Gwasg Gomer
GRUFFYDD, R. Geraint 1989. *Llenyddiaeth y Cymry: Cyflwyniad Darluniadol*, cyf. 2. Llandysul: Gwasg Gomer
GRUFFYDD, R. Geraint ed. 1997. *A Guide to Welsh Literature c.1530–1700*, vol. 3. Cardiff: University of Wales Press
JARVIS, Branwen ed. 2000,. *A Guide to Welsh Literature c.1700–1800*, vol. 4. Cardiff: University of Wales Press
MORGAN, Dyfnallt gol. 1966. *Gwyr Llên y Ddeunawfed Ganrif a'u Cefndir.* Llandybïe: Llyfrau'r Dryw
MORGAN, Dyfnallt gol. 1968. *Gwyr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir.* Llandybïe: Llyfrau'r Dryw
WILLIAMS, Glanmor and Robert Owen JONES eds 1990. *The Celts and the Renaissance*. Cardiff: University of Wales Press

DULLIAU DYSGU: Darlithiau, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (50%) ac arholiad 2 awr (50%).

CY3421 DAFYDD AP GWILYM

DARLITHYDD: Dr Dylan Foster Evans

NODAU'R MODIWL: Ar ddiwedd y modiwl hwn bydd y myfyrwyr:
- yn gyfarwydd â rhai o brif gerddi Dafydd ap Gwilym;
- yn gallu darllen gwaith Dafydd ap Gwilym gan ddefnyddio golygiad safonol;
- yn gyfarwydd â rhai o brif themâu a thechnegau Dafydd;
- yn gyfarwydd â chonfensiynau cyfoes golygu cywyddau.

DISGRIFIAD BYR: Bardd mwyaf Cymru? Bwriad y modiwl yw cyflwyno gwaith Dafydd ap Gwilym, bardd mwyaf yr Oesoedd Canol yng Nghymru, ac, o bosibl, fardd Cymraeg mwyaf unrhyw gyfnod. Byddwn yn astudio Dafydd yn ei gyd-destun llenyddol a hanesyddol, gan drafod ei berthynas â beirdd eraill a'i gyfraniad aruthrol i *genres* y canu mawl a'r canu serch. Byddwn yn gofyn pam y mae cerddi Dafydd wedi goroesi hyd heddiw, ac yn ystyried pa nodweddion sy'n golygu ei fod yn unigryw ymhlith beirdd yr Oesoedd Canol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- sgiliau darllen cywyddau;
- astudiaeth fanwl o gerddi unigol;
- Dafydd a'r traddodiad mawl a dychan;
- canu natur a chanu serch;
- Dafydd a chrefydd;
- ymryson Dafydd a Gruffudd Gryg;
- perthynas Dafydd â llenyddiaeth boblogaidd a llenyddiaeth Ewropeaidd;
- y traddodiad llawysgrifol a dulliau golygu cywyddau.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:

- adnabod rhai o brif gerddi Dafydd ap Gwilym;
- adnabod rhai o brif themâu Dafydd;
- adnabod rhai o brif dechnegau Dafydd;
- deall pam yr ystyrir Dafydd yn un o feirdd mwyaf yr Oesoedd Canol;
- dadansoddi ieithwedd a delweddaeth Dafydd;
- gwahaniaethu rhwng confensiwn a newydd-deb yn ei waith a thrafod dylanwadau posibl arno;
- gwerthfawrogi hanfodion cerdd dafod Dafydd;
- trafod y modd y perfformwyd a/neu y traddodwyd cerddi Dafydd;
- gwerthfawrogi confensiynau golygu;
- defnyddio golygiad safonol i ddarllen cerddi canoloesol;
- dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol;
- dadlau yn rhesymegol;
- asesu damcaniaethau gwahanol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

Golygiad

www.dafyddapgwilym.net

Astudiaethau

BROMWICH, Rachel 1974. *Dafydd ap Gwilym*, Writers of Wales. Cardiff: University of Wales Press

— 1986. *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*. Cardiff: University of Wales Press

EDWARDS, Huw M. 1996. *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues.* Oxford: Clarendon Press

FULTON, Helen 1989. *Dafydd ap Gwilym and the European Context.* Cardiff: University of Wales Press

GRUFFYDD, R. Geraint 1987. *Dafydd ap Gwilym*, Llên y Llenor. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn

ROWLANDS, John gol. 1975. *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY3404 Y FERCH YN YR OESOEDD CANOL

DARLITHYDD: Yr Athro Sioned Davies

NODAU'R MODIWL:
- astudio'r portread o'r ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol trwy ganolbwyntio ar ffynonellau cynradd;
- dadansoddi agweddau'r gymdeithas (seciwlar a chrefyddol) tuag at y ferch;
- cymharu agweddau awduron gwrywaidd a benywaidd tuag at ferched.

DISGRIFIAD BYR: Y mae'r modiwl hwn yn astudio'r portread o'r ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol trwy gyfrwng ffynonellau fel y cyfreithiau, y chwedlau, barddoniaeth, testunau hanesyddol a chrefyddol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
Yn gyntaf, trafodir y ferch mewn cyd-destun Ewropeaidd. Edrychir yn gyffredinol ar y dystiolaeth hanesyddol ac agweddau'r byd crefyddol a seciwlar tuag at ferched. Yna canolbwyntir ar y darlun yng Nghymru. Manylir ar dystiolaeth y ffynonellau canlynol:

- dogfennau hanesyddol;
- llyfrau cyfraith;
- testunau meddygol;
- rhyddiaith chwedlonol;
- barddoniaeth yr Oesoedd Canol;
- rhyddiaith grefyddol (Cwlt y Forwyn Fair; Bucheddau'r Santesau).

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:

- gwybod am ddetholiad o ffynonellau Cymraeg canoloesol sydd yn cyfeirio at ferched;
- gwybod sut i ddehongli a gwerthuso ffynonellau cynradd;
- dangos ymwybyddiaeth o gyd-destun hanesyddol a chymdeithasol y ffynonellau;
- deall yr agweddau tuag at ferched yn y cyfnod canol a'r rhesymau dros yr agweddau hynny;
- deall natur y berthynas rhwng safle'r ferch yn y gymdeithas a'r grymoedd sy'n creu'r traddodiad ysgrifenedig;
- defnyddio golygiadau safonol;
- cywain gwybodaeth o amryw ffynonellau a'i chyflwyno'n drefnus;
- dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

BLAMIRES, Alcuin ed. 1992. *Women Defamed and Women Defended*. Oxford: Clarendon

CARTWRIGHT, Jane 1999. *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wyryfdod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

DAVIES, Sioned 1994. 'Y Ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol'. Yn Geraint H. Jenkins gol. *Cof Cenedl IX*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 1–32

FULTON, Helen 1991. 'Medieval Welsh Poems to Nuns', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 21, 87–112

HAYCOCK, Marged 1990. 'Merched Drwg a Merched Da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain'. Yn J. E. Caerwyn Williams gol. *Ysgrifau Beirniadol XVI.* Dinbych: Gwasg Gee, tt. 97–110

JENKINS, Dafydd & Morfydd E. OWEN ed. 1980. *The Welsh Law of Women.* Cardiff: University of Wales Press

LLOYD-MORGAN, Ceridwen 1990. ' "Gwerful, ferch ragorol fain": Golwg newydd ar Gwerful Mechain'. Yn J. E. Caerwyn Williams gol. *Ysgrifau Beirniadol XVI*. Dinbych: Gwasg Gee, tt. 84–96

MILLETT, Bella & Jocelyn WOGAN-BROWNE 1990. *Medieval English Prose for Women* Oxford: Clarendon

POWER, Eileen 1975. *Medieval Women*, ed. M.M. Postan. Cambridge: Cambridge University Press

ROBERTS, Brynley F. gol. 1961. *Gwassanaeth Meir sef Cyfieithiad Cymraeg Canol o'r Officum Parvum Beatae Mariae Virginis*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

SALISBURY, Joyce E. 1991. *Sex in the Middle Ages: A Book of Essays.* New York: Garland
SHAHAR, Shulamith 1983. *The Fourth Estate. A History of Women in the Middle Ages*, trans. Chaya Galai. London and New York: Methuen
WARNER, Marina 1976. *Alone of All Her Sex. The Myth and the Cult of the Virgin Mary.* London: Picador

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY3422 'Y GANRIF FAWR'

DARLITHYDD: Dr Dylan Foster Evans

NODAU'R MODIWL: Ar ddiwedd y modiwl hwn bydd y myfyrwyr:
- yn gyfarwydd â phrif nodweddion canu caeth y 'Ganrif Fawr', *c*.1435–*c.*1535;
- yn gallu darllen gwaith y Cywyddwyr gan ddefnyddio golygiadau safonol;
- yn gyfarwydd â'r gyfundrefn sosio-economaidd sy'n sail i'r canu;
- yn gyfarwydd â nodweddion unigol rhai o feirdd mwyaf y cyfnod.

DISGRIFIAD BYR:
Oes aur ein llên? Bwriad y modiwl yw cyflwyno astudiaeth fanwl o farddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr yn ystod y cyfnod a alwodd Saunders Lewis yn 'Ganrif Fawr' (*c*.435–*c*.535). Yn ogystal â darparu'r sgiliau angenrheidiol i ddarllen y cerddi, byddwn yn rhoi sylw arbennig i sail sosio-economaidd y canu. Wrth ddadansoddi crefft a themâu y cerddi byddwn yn gofyn pam y mae'r cyfnod hwn yn aml yn cael ei ystyried yn oes aur yn llenyddiaeth Gymraeg.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- canu mawl a marwnad y 'Ganrif Fawr';
- *genres* amrywiol: serch, gofyn a diolch, dychan, darogan;
- cerdd dafod y beirdd a chonfensiynau golygu.

CANLYNIADAU'R DYSGU**:**
- adnabod cerddi a drafodwyd yn y modiwl mewn arholiad;
- adnabod rhai o brif themâu'r cywyddau yn gyffredinol;
- adnabod rhai o brif dechnegau'r Cywyddwyr.
- dadansoddi ieithwedd a delweddaeth y Cywyddwyr;
- gwahaniaethu rhwng confensiwn a newydd-deb yn eu gwaith;
- gwerthfawrogi hanfodion cerdd dafod y cyfnod a chonfensiynau golygu cyfoes.
- defnyddio golygiadau a llawlyfrau safonol i ddarllen a dehongli cerddi canoloesol.
- dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol;
- dadlau yn rhesymegol;
- asesu damcaniaethau gwahanol;
- dangos meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig safonol.

RHESTR DARLLEN ENGHREIFFTIOL:

HUWS, Bleddyn Owen 1998. *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

JARMAN, A. O. H., HUGHES, G. R. a JOHNSTON, D. eds 1997. *A guide to Welsh literature*, ii. Cardiff: University of Wales Press

JOHNSTON, Dafydd gol. 1995. *Gwaith Lewys Glyn Cothi*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

— 2005. *Llên yr Uchelwyr: hanes beirniadol llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

JONES, E.D. 1984. *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir*. Aberystwyth: Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd

MORRIS-JONES, John 1980 [1925]. *Cerdd Dafod*. Adargraffiad, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

PARRY, Thomas gol. 1962. *The Oxford Book of Welsh Verse*. Oxford: Oxford University Press

WILLIAMS, J. Llywelyn a WILLIAMS, Ifor goln 1961. *Gwaith Guto'r Glyn*. 2il argr., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.
DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY2679 GWLEIDYDDIAETH A PHROPAGANDA YN LLENYDDIAETH GYMRAEG YR UGEINFED GANRIF

DARLITHYDD: Dr Simon Brooks

NODAU'R MODIWL:

- Datblygu dealltwriaeth o gyd-blethiad gwleidyddiaeth, ideoleg a llenyddiaeth yn y Gymru Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif;
- Olrhain datblygiad gwahanol ideolegau (er enghraifft, Sosialaeth, Cenedlaetholdeb a Heddychiaeth) yn llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif;
- Adnabod arwyddocâd digwyddiadau gwleidyddol penodol (er enghraifft; llosgi'r Ysgol Fomio, Rhyfel Corea, referenda datganoli ayyb) i lenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif.

DISGRIFIAD BYR: Mae llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif yn gyforiog o wleidyddiaeth. Bydd y modiwl hwn yn codi cwr y llen ar draddodiadau gwleidyddol megis Cenedlaetholdeb a Phrydeindod, Heddychiaeth a Militariaeth, a hyd yn oed adar drycin Comiwnyddiaeth a Ffasgaeth, wrth iddynt ymrafael â'i gilydd am sylw yn llên y ganrif ddiwethaf. At hyn hefyd, bydd cyfle i ymateb i ddigwyddiadau gwleidyddol penodol o bwysigrwydd llenyddol, megis carchariad Saunders Lewis yn sgil llosgi'r Ysgol Fomio, ymgyrchoedd y mudiadau iaith, a'r ddau refferendwm datganoli.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:

- Y cefndir gwleidyddol cyffredinol yng Nghymru'r ugeinfed ganrif;
- Y Chwith a'r Dde yn llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif;
- Digwyddiadau gwleidyddol penodol a'u heffaith ar lenyddiaeth Gymraeg;

- Twf cenedlaetholdeb yng Nghymru, a llenyddiaeth Gymraeg;
- Y mudiad iaith a llenyddiaeth Gymraeg;
- Mudiadau protest, heddychiaeth a'r ymateb i ryfel a llenyddiaeth Gymraeg;
- Yr ymateb llenyddol i refferenda datganoli 1979 a 1997.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- Arddangos dealltwriaeth o'r lle canolog sydd gan wleidyddiaeth ac ideoleg yn llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif;
- Amgyffred natur y berthynas rhwng gwleidyddiaeth, ideoleg a llenyddiaeth;
- Amgyffred natur y cyswllt rhwng hunaniaeth genedlaethol a llenyddiaeth;
- Arddangos dealltwriaeth o brif ddigwyddiadau gwleidyddol Cymreig yr ugeinfed ganrif o safbwynt eu harwyddocâd i lenyddiaeth Gymraeg;
- Adnabod gwahanol safbwyntiau gwleidyddol ac ideolegol yng Nghymru ac ymateb yn feirniadol iddynt;
- Ymateb yn feirniadol i safbwyntiau ideolegol sydd yn ymhlyg mewn llenyddiaeth;
- Adnabod propaganda fel dyfais lenyddol;
- Datblygu sgiliau ym maes hanes syniadau;
- Adnabod y gwahaniaeth rhwng "gwrthrychedd" a "goddrychedd", a'u trin yn feirniadol;
- Deall y berthynas rhwng llenyddiaeth a'r gymdeithas ehangach;
- Ymateb yn feirniadol i gysyniadau megis ideoleg, propaganda, gwirionedd, gwrthrychedd a goddrychedd;
- Trin ffynonellau cynradd ac eilaidd yn feirniadol;
- Meithrin dealltwriaeth o ryngddisgyblaetholdeb.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

[amryw] 1986, *Beirdd yn erbyn Apartheid.* Caerdydd: Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru

BROOKS, Simon 2004. *O Dan Lygaid y Gestapo.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

CHAPMAN, T. Robin 1997. *Ambrose Bebb.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

DAVIES, Grahame 2004. *Rhaid i Bopeth Newid.* Llandysul: Gwasg Gomer

ELIS, Islwyn Ffowc 1957. *Wythnos yng Nghymru Fydd.* Caerdydd: Plaid Cymru

ELIS, Meg 1978. *Carchar.* Tal-y-bont: Y Lolfa

GRUFFUDD, Heini 1983. *Achub Cymru.* Tal-y-bont: Y Lolfa

JAMES, Christine 2001. *Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn.* Llandysul: Gwasg Gomer

LEWIS, Saunders 1937. *Buchedd Garmon.* Dinbych: Gwasg Gee

LLWYD, Alan 1990. *Cerddi Alan Llwyd: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf.* Cyhoeddiadau Barddas

MORGAN, K. O. 1982. *Rebirth of a Nation* Oxford: Oxford University Press

NICHOLAS, T. E. 1981. *'Tros Ryddid Daear': Cerddi Gwleidyddol.* Aberpennar: Llyfrau Niclas

WILLIAMS, Waldo 1957. *Dail Pren.* Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY HANES Y DDRAMA

DARLITHYDD: Dr E. Wyn James

NODAU'R MODIWL:
Astudio datblygiad y ddrama Gymraeg, yn arbennig fel ffurf lenyddol.

DISGRIFIAD BYR: Bwriad y modiwl hwn yw olrhain datblygiad y ddrama Gymraeg dros y canrifoedd, gan roi sylw arbennig i rai o brif ddramodwyr yr ugeinfed ganrif ac i werth llenyddol dramâu Cymraeg. (Ni roddir sylw manwl i waith Saunders Lewis yn y modiwl hwn, gan y neilltuir modiwl arall ar ei gyfer.)

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- cyflwyniad i hanfodion drama;
- Canu Llywarch Hen a Heledd: olion dramâu clasurol?
- Dramâu Miragl a Moes;
- *Troelus a Chresyd;*
- Yr anterliwt;
- Beriah Gwynfe Evans;
- dramodwyr yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys W. J. Gruffydd, D. T. Davies, J. Kitchener Davies, John Gwilym Jones, Gwenlyn Parry, W. S. Jones a Michael Povey.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch datblygiad y ddrama Gymraeg a'r ffactorau hanesyddol, cymdeithasol a deallusol a ddylanwadodd arni;
- dangos cynefindra â llenyddiaeth feirniadol safonol yn y maes;
- ymateb yn briodol i'r defnydd o iaith ac o'r dychymyg mewn llenyddiaeth;
- gwerthfawrogi a chloriannu dramâu Cymraeg fel gweithiau llenyddol;
- trin dramâu Cymraeg yn feirniadol fel gweithiau llenyddol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth;
- gosod y ddrama Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a syniadol;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrîn â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
JONES, Dafydd Glyn a John Ellis JONES goln 1981. *Llwyfannau*, Cyfres 'Cwmpas'. Caernarfon: Gwasg Gwynedd
LAKE, A. Cynfael 1998. 'Llenyddiaeth Boblogaidd y Ddeunawfed Ganrif'. Yn Geraint H. Jenkins gol. *Cof Cenedl XIII*, Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 69–101
IFANS, Rhiannon 1996. 'Celfyddyd y Cantor o'r Nant'. Yn J. E. Caerwyn Williams gol. *Ysgrifau Beirniadol XXI*. Dinbych: Gwasg Gee, tt. 120–46
JONES, Dafydd Glyn 1973. 'Saunders Lewis a Thraddodiad y Ddrama Gymraeg', *Llwyfan*, 9 (Gaeaf 1973), 1–12
THOMAS, M. Wynn 2002. *James Kitchener Davies*, Writers of Wales. Cardiff: University of Wales Press
ROWLANDS, John 1988. *John Gwilym Jones,* Llên y Llenor. Caernarfon:

Gwasg Pantycelyn
PHILLIPS, Dewi Z. 1995. *Dramâu Gwenlyn Parry: Astudiaeth*. Argraffiad newydd wedi'i helaethu Caernarfon: Gwasg Pantycelyn

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY2349 I FYD Y FALED

DARLITHYDD: Dr Siwan Rosser a Dr E. Wyn James

NODAU'R MODIWL:
- Olrhain hanes a datblygiad y faled yng Nghymru
- Cyflwyno'r myfyrwyr i'r prif ddamcaniaethau ym maes astudiaethau baledi
- Cyflwyno'r myfyrwyr i brif nodweddion crefft y baledwyr
- Trafod swyddogaeth gymdeithasol y faled
- Dadansoddi testunau'n fanwl

DISGRIFIAD BYR: Prif *genre* diwylliant poblogaidd Cymru'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg oedd y faled. Fe'i defnyddid i ledaenu newyddion, i ddiddanu ac i gyflwyno moeswersi. Er i fyd y baledwr crwydrol ddod i ben ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ni welwyd tranc y faled ei hun. Yn hytrach, newidiodd ei ffurf yn ôl gofynion yr oes a gwelwyd twf y faled lenyddol yng ngwaith beirdd fel Cynan ac I. D. Hooson ynghyd â thwf y faled boblogaidd yng nghaneuon Dafydd Iwan a'i debyg. Bydd y modiwl hwn yn olrhain datblygiad y faled yng Nghymru o ddiwedd yr Oesoedd Canol ymlaen gan roi sylw arbennig i'r ffactorau cymdeithasol a diwylliannol a ddylanwadodd arni. Dadansoddir prif nodweddion crefft a chynnwys y baledi a thrafodir swyddogaeth y testunau yn eu cyd-destun hanesyddol a chyfoes.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
Bydd y modiwl hwn yn olrhain hanes a datblygiad y faled yng Nghymru o ddiwedd yr Oesoedd Canol ar hyd y cyfnod modern. Trafodir dylanwad y wasg argraffu a datblygiadau diwylliannol ar y faled yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg a manylir ar waith rhai o brif faledwyr y cyfnod. Ystyrir ymdriniaeth y beirdd â phrif themâu'r *genre*. Yn ogystal, trafodir datblygiad y faled lenyddol a'r faled boblogaidd yn ystod yr ugeinfed ganrif gan fanylu ar waith beirdd a diddanwyr megis Cynan a Dafydd Iwan.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- adnabod prif nodweddion arddull y baledi
- gwybod am hanes a datblygiad y traddodiad baledol yng Nghymru
- deall y berthynas rhwng y faled a'r wasg argraffu
- gwybod am y prif ddamcaniaethau ym maes asudiaethau baledi
- deall y newidiadau a fu yn niwylliant poblogaidd Cymru yn ystod y ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ar bymtheg a'r ugeinfed a'u dylanwad ar y faled
- deall swyddogaeth gymdeithasol diwylliant poblogaidd

- dehongli a dadansoddi data o ystod eang o ffynonellau hanesyddol a chyfoes
- dadansoddi testunau'n fanwl o safbwynt cynnwys ac arddull
- deall swyddogaeth gymdeithasol y faled yn ei chyd-destun hanesyddol a chyfoes
- adnabod prif nodweddion iaith ac orgraff baledi printiedig y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg
- gwerthfawrogi'r berthynas rhwng geiriau ac alawon y baledi
- cywain gwybodaeth a'i chyflwyno'n drefnus
- dadlau yn rhesymegol
- dangos ymwybyddiaeth o'r newidiadau a fu yn niwylliant poblogaidd Cymru yn ystod y ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ar bymtheg a'r ugeinfed

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

OWEN, Dafydd 1986. *I Fyd y Faled*. Dinbych: Gwasg Gee
CONSTANTINE, Mary-Ann gol. 1998. *Baledi yng Nghymru.* Llundain: FLS Books
PARRY, Thomas 1986 [1935]. *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
DAVIES, J. H. 1911. *A Bibliography of Ballads Printed in the 18th Century.* London: Honourable Society of Cymmrodorion
JONES, Tegwyn 1971. *Hen Faledi'r Ffair.* Tal-y-bont: Y Lolfa
THOMAS, Ben Bowen 1951. *Baledi Morgannwg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
THOMAS, Ben Bowen 1958. *Drych y Baledwr*. Gwasg Aberystwyth
JONES, Hefin 1995. *Dic Dywyll y Baledwr*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch
JAMES, E. Wyn 2001. 'Golwg ar Rai o Gerddi a Baledi Cymraeg Troed-y-rhiw'. Yn Hywel Teifi Edwards gol., *Cyfres y Cymoedd: Merthyr a Thaf*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 94–129
JONES, Tegwyn 1989. *Abel Jones Bardd Crwst.* Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch
SAER, D. Roy 1992. *Canu at Iws*. Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
JAMES, E. Wyn 2005. 'Painting the World Green: Dafydd Iwan and the Welsh Protest Ballad', *Folk Music Journal*, 8:5, 594–618
Gwefan Baledi Cymru (ar wefan SCOLAR, Llyfrgell Prifysgol Caerdydd: www.caerdydd.ac.uk/insrv/libraries/scolar/digital/welshballads/index.html)

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY3593 IAITH, GWLEIDYDDIAETH A GWRTHDARO

DARLITHYDD: Dr Diarmait Mac Giolla Chríost

NODAU'R MODIWL:
- Cyflwyno'r myfyrwyr i'r thema 'Iaith, Gwleidyddiaeth a Gwrthdaro' yn y cyfnod modern
- Cymharu nifer o wahanol astudiaethau achos o wrthdaro ieithyddol, gan ganolbwyntio ar Ewrop

DISGRIFIAD BYR: Cyflwyniad i'r berthynas rhwng iaith, gwleidyddiaeth a gwrthdaro gan ganolbwyntio ar y cyfnod modern. Gosodir y datblygiadau hyn mewn cyd-destun cymharol, Ewropeaidd.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- Amrywiaeth ieithyddol a'r wladwriaeth genhedlig yn yr Ewrop fodern
- Diffinio gwrthdaro ieithyddol
- Ideoleg ac iaith: hunaniaeth, cenedlaetholdeb a phwer
- Astudiaethau achos: er enghraifft, Gwlad y Basg, Corsica, Cymru, Yr Hen Iwgoslafia, Latfia
- Tensiynau ieithyddol mewn byd sy'n globaleiddio
- Rheoli a datrys gwrthdaro ieithyddol

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch iaith, gwleidyddiaeth a gwrthdaro a'r elfennau hanesyddol, gwleidyddol a deallusol sydd yn berthnasol i'r maes
- dangos cynefindra â ffynonellau cyfeirio safonol yn y maes
- gosod iaith, gwleidyddiaeth a gwrthdaro mewn cyd-destun cymharol, Ewropeaidd
- trin data a thystiolaeth (gan gynnwys mapiau, tablau a graffiau) yn feirniadol o safbwynt dehongli'r maes
- trafod yn feirniadol iaith mewn cyd-destunau o wrthdaro
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

CALVET, L-J. 1998. *Language Wars and Linguistic Politics.* Oxford: Oxford University Press

DE VARENNES, F. 1996. *Languages, Minorities and Human Rights.* The Hague: Kluwer Law International

FISHMAN, J. A. 1989. *Language and Ethnicity in Minority Sociolinguistic Perspective.* Clevedon: Multilingual Matters

MAR-MOLINERO, C. & SMITH, A. eds 1996. *Nationalism and the Nation in the Iberian Peninsula: Competing and Conflicting Identities.* Oxford: Berg.

MAY, S. 2001. *Language and Minority Rights. Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language.* Harlow: Longman

MAC GIOLLA CHRÍOST, D. 2003. *Language, Identity and Conflict.* London: Routledge

NELDE, P. H., LABRIE, N. & WILLIAMS, C. H. 1992. 'The principles of territoriality and personality in the solution of linguistic conflicts', *Journal of Multilingual and Multilingual Development*, 13:5, 387–406

PHILLIPS, Dylan 1998. *Trwy Ddulliau Chwyldro . . . ? Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962–1992.* Llandysul: Gwasg Gomer

SKUTNABB-KANGAS, T. 2000. *Linguistic Genocide in Education—Or Worldwide Diversity and Human Rights?* Lawrence Erlbaum Associates, Inc.

SZPORLUK, R. ed. 1994. *National Identity and Ethnicity in Russia and the New States of Eurasia*. New York: M. E. Sharp

WARDHAUGH, R. 1987. *Languages in Competition. Dominance, Diversity and Decline* Rhydychen: Basil Blackwell
WILLIAMS, C. H. 1984. 'More than tongue can tell: linguistic factors in ethnic separatism', yn *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism*, gol. J. Edwards Llundain: Academic Press, 179-219

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY3591 IAITH, Y DDINAS A CHYMDEITHAS

DARLITHYDD: Dr Diarmait Mac Giolla Chríost

NODAU'R MODIWL:
- Cyflwyno'r myfyrwyr i'r thema 'Iaith, Y Ddinas a Chymdeithas' yn y cyfnod modern
- Cymharu nifer o astudiaethau achos o sefyllfa amrywiaeth ieithyddol mewn gwahanol ddinasoedd ar draws y byd

DISGRIFIAD BYR: Cyflwyniad i'r berthynas rhwng iaith, y ddinas a chymdeithas gan ganolbwyntio ar y cyfnod modern. Gosodir y datblygiadau hyn mewn cyd-destun cymharol, byd-eang.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- Diffinio'r ddinas mewn termau daearyddol, hanesyddol a chymdeithasegol
- Astudio'r rhychwant o ddata empeiraidd ar amrywiaeth ieithyddol mewn gwahanol ddinasoedd ledled y byd cyfoes
- Ymdrin â nifer o themâu llorweddol: er enghraifft, allfudo, mewnfudo, gwahaniaeth diwylliannol, gwleidyddiaeth grwp, gwerthoedd dinesig, llywodraeth
- Ymgymryd â nifer o astudiaethau achos: er enghraifft, Caerdydd, Barcelona, Toronto, Montréal, Sydney, Singapore
- Y ddinas, sifft ieithyddol a chynaladwyedd diwylliannol
- Y ddinas a'i rôl mewn globaleiddio diwylliannol

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch iaith, y ddinas a chymdeithas a'r elfennau daearyddol, hanesyddol, gwleidyddol a deallusol sydd yn berthnasol i'r maes
- gosod iaith, y ddinas a chymdeithas mewn cyd-destun cymharol, byd-eang
- trafod yn feirniadol iaith mewn cyd-destunau dinesig
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

AITCHISON, J. W. & CARTER, H. 1987. 'The Welsh language in Cardiff: a quiet revolution', *Transactions of the Institute of British Geographers*, 12 (new series), 482–92
CHRISTOPHER, A. J. 2004. 'Linguistic segregation in urban South Africa', *Geoforum*, 35:2, 145–56
COOPER, R. L. 1974. 'Choosing a lingua franca in an African capital', *Language in Society*, 3:1, 147–54
FARR, M. 2003. *Ethnolinguistic Chicago.* Lawrence Erlbaum Associates
GARCÍA, O. & FISHMAN, J. A. eds 2002. *The Multilingual Apple: Languages in New York City.* Berlin: Mouton de Gruyter
GUPTA, A. 2000. 'Bilingualism in the cosmopolis', *International Journal of the Sociology of Language*, 143, 107–19
HALL, P. 1998. *Cities in Civilisation: Culture, Innovation and Order*. London: Weidenfield
HANNERZ, U. 1996. *Transnational Connections: Culture, People, Places.* London: Routledge
KING, A. D. ed. 1996. *Re-presenting the City: Ethnicity, Capital and Culture in the 21st Century Metropolis*. New York: New York University Press
LAQUIAN, A. A. 1996. 'The multi-ethnic and multicultural city: an Asian perspective', *International Social Science Journal*, 147, 43–54
LEVINE, M. 1990. *The Reconquest of Montreal: Language Policy and Social Change in a Bilingual City.* Philadelphia, PA: Temple University Press
MAGUIRE, G. 1991. *Our Own Language: An Irish Initiative.* Clevedon: Multilingual Matters
MASSEY, D., ALLEN, J. & PILE, S. eds 1999. *City Worlds*. London: Routledge
SANDERCOCK, L. 1998. *Towards Cosmopolis: Planning for Multicultural Cities*. London: Routledge
WILLIAMS, C. H. & VAN DER MERWE, I. J. 1996. 'Mapping the multilingual city: a research agenda for urban geolinguistics', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 17:1, 49–66

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY2468 LLÊN Y DDINAS

DARLITHYDD: Dr Simon Brooks a Dr E. Wyn James

NODAU'R MODIWL:
Astudio dylanwad y ddinas ar lenyddiaeth Gymraeg.

DISGRIFIAD BYR: Delwedd dra chyffredin yn ein llenyddiaeth yw'r un rhamantaidd honno o Gymru yn wlad yn llawn dyffrynnoedd hardd, nentydd swynol a gwladwyr gwâr. Ond y gwir yw fod i'r ddinas le allweddol yn natblygiad ein llenyddiaeth, yn y gorffennol ac at y dyfodol. Yn y modiwl hwn edrychir ar ymateb y Cymry i'r bywyd trefol a dinesig dros y canrifoedd, gan fanylu'n arbennig ar gyfraniad Llundain a Chaerdydd i lenyddiaeth Gymraeg.

Edrychir hefyd ar bwysigrwydd y ddinas i ddatblygiad Moderniaeth ac Ôl-foderniaeth yn ein llenyddiaeth.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- arolwg o dwf a datblygiad bywyd trefol a dinesig yng Nghymru, a'r adwaith i hynny yn ein llenyddiaeth;
- cyfraniad Llundain i'r diwylliant Cymraeg hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg;
- lle'r ddinas yn natblygiad Moderniaeth ac Ôl-foderniaeth mewn llenyddiaeth Gymraeg;
- arolwg o gyfraniad Caerdydd i lenyddiaeth Gymraeg.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch lle'r ddinas mewn llenyddiaeth Gymraeg;
- dangos cynefindra â llenyddiaeth feirniadol safonol yn y maes;
- ymateb yn briodol i'r defnydd o iaith ac o'r dychymyg mewn llenyddiaeth;
- gwerthfawrogi a chloriannu llenyddiaeth Gymraeg sy'n ymdrin â'r bywyd trefol a dinesig neu yn codi ohono;
- trin gweithiau llenyddol yn feirniadol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth;
- gosod llenyddiaeth Gymraeg sy'n ymdrin â'r bywyd trefol a dinesig neu yn codi ohono, yn ei chyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a syniadol;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwn yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
AP GWILYM, Gwynn 1979. 'Cymraeg y Pridd a'r Concrid', *Barn,* 203/4 (Rhag. 1979/Ion. 1980)
CARR, Glenda 1996. 'Bwrlwm Bywyd y Cymry yn Llundain yn y Ddeunawfed Ganrif'. Yn Geraint H. Jenkins gol. *Cof Cenedl XI*. Llandysul: Gwasg Gomer
ERFYL, Gwyn 1979. 'Cymraeg y Pridd a'r Concrid', *Barn,* 201 (Hydref 1979), 164–7
HUGHES, Vaughan 1980. 'Cymraeg y Pridd a'r Concrid', *Barn,* 205 (Chwefror 1980), 15–19
LEWIS, Saunders 1973. *Meistri'r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru [penodau 20, 21, 25 a 32]
Tu Chwith, cyf. 4 1996 – rhifyn arbennig 'Gwlad a Thref'

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY3633 LLENYDDIAETH PLANT

DARLITHYDD: Dr Siwan Rosser

NODAU'R MODIWL:
- Cyflwyno prif theorïau beirniadol y maes

- Dadansoddi testunau llenyddol a gynhyrchwyd ar gyfer plant yn eu cyd-destun hanesyddol a chyfoes.

DISGRIFIAD BYR: Drwy gyflwyno'r theorïau diweddaraf ym maes llenyddiaeth plant a thrwy fanylu ar ddetholiad o destunau Cymraeg, bydd y modiwl hwn yn archwilio swyddogaeth ac arwyddocâd llenyddiaeth plant yn ei chyd-destun hanesyddol, diwylliannol a theoretig. Cyflwynir y myfyrwyr i amrywiaeth o *genres* llenyddol, gan gynnwys hwiangerddi, cylchgronau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, llyfrau hanes a ffuglen.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- *genres* llenyddiaeth plant
- theorïau beirniadol yn ymwneud â dadansoddi llenyddiaeth plant
- hwiangerddi, rhigymau a difyrion
- cyhoeddiadau cynnar ar gyfer plant
- hanes a chwedl
- ffuglen plant yn ystod yr ugeinfed ganrif
- delweddu'r plentyn

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- adnabod prif *genres* llenyddiaeth plant
- gwybod am y prif theorïau beirniadol yn ymwneud â dadansoddi llenyddiaeth plant
- olrhain datblygiad llenyddiaeth plant yng Nghymru gan gynnwys hanes cyhoeddi llyfrau plant
- deall cyd-destun hanesyddol a diwylliannol llenyddiaeth plant
- deall swyddogaeth ddiwylliannol llenyddiaeth plant
- archwilio amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys llên gwerin a chylchgronau poblogaidd
- cymhwyso theorïau beirniadol i destunau penodol
- dadansoddi arddull a chynnwys llenyddiaeth plant
- casglu gwybodaeth a'i gyflwyno'n drefnus
- trafod testunau llenyddol yn feirniadol
- gwerthuso theorïau beirniadol a'u cymhwyso

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
JONES, Mairwen a Gwyn 1983. *Dewiniaid Difyr.* Llandysul: Gwasg Gomer
KEYSE, Frank ed. 1984. *Loughborough '83: proceedings [of the] 16th Loughborough International Seminar on Children's Literature, held at the College of Librarianship, Wales 15th-20th August 1983.* Aberystwyth: Canolfan Llenyddiaeth Plant Cymru
JONES, Sally Roberts 1990. *New Welsh Review*, 8.
PHILLIPS, Menna a chyflwynaid gan HUWS, Gwilym 1997. *Llyfrau plant: Children's books in Welsh, 1900–1991*. Aberystwyth: Llyfrgell Gendlaethol Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru ac Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth Prifysgol Cymru
HUNT, Peter ed. 2000. *Understanding Children's Literature* London: Routledge
JONES, Tecwyn Vaughan 2002. ' " Calennig a Chalennig a Blwyddyn Newydd Dda": Y plentyn ar ddydd Calan yng Nghymru'. Yn Myrddin ap Dafydd gol. *Ar Lafar ei Wlad*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, tt. 219-32.
CHAPLEAU, Sebastien ed. 2004. *New Voices in Children's Literature Criticism*.

Lichfield: Pied Piper

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY3617 MERCHED A LLÊN YN Y CYFNOD MODERN

DARLITHYDD: Dr E. Wyn James a Dr Siwan Rosser

NODAU'R MODIWL:
Astudio cyfraniad merched i lenyddiaeth Gymraeg yn y cyfnod modern.

DISGRIFIAD BYR: Astudiaeth o gyfraniad merched i lenyddiaeth Gymraeg yn y cyfnod modern, gan ganolbwyntio yn bennaf ar waith Ann Griffiths, Eluned Morgan, Kate Roberts, a llenyddiaeth oddi ar yr Ail Rhyfel Byd.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- safle'r ferch yn y gymdeithas Gymreig yn y cyfnod modern;
- y portread o'r ferch mewn llenyddiaeth Gymraeg yn y cyfnod modern;
- arolwg o gyfraniad merched i lenyddiaeth Gymraeg hyd at ganol yr ugeinfed ganrif, gan ganolbwyntio'n arbennig ar waith Ann Griffiths, Eluned Morgan a Kate Roberts;
- astudiaeth o ddetholiad o ryddiaith a barddoniaeth gan ferched oddi ar yr Ail Rhyfel Byd.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch cyfraniad merched i lenyddiaeth Gymraeg yn y cyfnod modern;
- dangos cynefindra â llenyddiaeth feirniadol safonol yn y maes;
- ymateb yn briodol i'r defnydd o iaith ac o'r dychymyg mewn llenyddiaeth;
- gwerthfawrogi a chloriannu deunydd llenyddol Cymraeg gan ferched ac am ferched;
- trin gweithiau llenyddol yn feirniadol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth;
- gosod deunydd llenyddol Cymraeg gan ferched ac am ferched yn ei gyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a syniadol;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
AARON, Jane 1998. *Pur Fel y Dur: Y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
CHARNELL-WHITE, Cathryn A. gol. 2005. *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800.* Cyhoeddiadau Barddas
EAGLETON, Mary ed. 1996. *Feminist Literary Theory: A Reader.* Oxford: Blackwell
GEORGE, Delyth A. 1985. 'Kate Roberts—Ffeminist?', *Y Traethodydd,* Hydref 1985, 185–202
GEORGE, W. R. P. gol. 1972. *'Gyfaill Hoff . . .': Detholiad o Lythyrau Eluned*

Morgan. Llandysul: Gwasg Gomer
JAMES, E. Wyn 2002. 'Ann Griffiths: O Lafar i Lyfr'. Yn Angharad Price gol. *Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
ROSSER, Siwan M. 2005. *Y Ferch ym Myd y Faled.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
ROWLANDS, John gol. 1992. *Sglefrio ar Eiriau.* Llandysul: Gwasg Gomer
Efrydiau Athronyddol, 55 (1992) – rhifyn arbennig ar syniadau ffeminyddol
Y Traethodydd, Ionawr 1986 – rhifyn arbennig ar ferched a llenyddiaeth
Tu Chwith, 6 Hydref 1996) – rhifyn arbennig ar waith merched
Gwefan Ann Griffiths: www.anngriffiths.caerdydd.ac.uk

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY3562 PEDEIR KEINC Y MABINOGI

DARLITHYDD: Yr Athro Sioned Davies

NODAU'R MODIWL:
- astudio gwahanol agweddau ar y chwedlau canoloesol a elwir *Pedeir Keinc y Mabinogi*;
- meithrin sgiliau darllen Cymraeg Canol;
- deall y berthynas gymhleth rhwng llafaredd a llythrennedd yn yr Oesoedd Canol.

DISGRIFIAD BYR:
Yn y modiwl hwn astudir *Pedeir Keinc y Mabinogi* yn fanwl. Rhoddir sylw arbennig i grefft y cyfarwydd, ac i'r berthynas rhwng y llafar, y llais a'r llyfr yn yr Oesoedd Canol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR: Canolbwyntir ar y pynciau a ganlyn:
- dyddiad ac awduraeth;
- themâu;
- adeiladwaith;
- arddull;
- motifau a themâu rhyngwladol;
- cymeriadaeth;
- perfformio yn yr Oesoedd Canol;
- ail-greu *Pedeir Keinc y Mabinogi.*

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- gwybod am brif themâu, arddull ac adeiladwaith *Pedeir Keinc y Mabinogi;*
- gwybod sut i ddefnyddio golygiad, a gwerthfawrogi confensiynau golygu;
- dangos ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng yr awdur, ei gyfnod/chyfnod a'r testun;
- medru disgrifio ac asesu'n feirniadol y prif ddadleuon yn y maes;
- deall y gydberthynas rhwng llafaredd, llythrennedd a chlywededd yn yr Oesoedd Canol;

- ymgyfarwyddo â sgiliau darllen Cymraeg Canol a dadansoddi testunol manwl;
- cywain a threfnu deunydd o wahanol ffynonellau;
- cynnal dadl resymegol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

DAVIES, Sioned 1989. *Pedeir Keinc y Mabinogi*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn
— 1995. *Crefft y Cyfarwydd: Astudiaeth o dechnegau naratif yn y Mabinogion*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
GOETINCK, Glenys 1987. 'Pedair Cainc y Mabinogi: Yr Awdur a'i Bwrpas', *Llên Cymru*, 15, 249–69
MAC CANA, Proinsias 1992. *The Mabinogi*. Cardiff: University of Wales Press
ROBERTS, Brynley F. 1992. *Studies on Middle Welsh Literature*. Lewiston, Queenston, Lampeter: Edwin Mellen

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY3951 RHYDDIAITH DDIWEDDAR

DARLITHYDD: Dr Simon Brooks

NODAU'R MODIWL:
Astudio datblygiadau newydd mewn ffuglen Gymraeg ers canol y 1980au.

DISGRIFIAD BYR: Mae'r modiwl hwn yn edrych yn fanwl ar y datblygiadau cyffrous yn y nofel a'r stori fer ers canol y 1980au, gan astudio gwaith awduron megis Wiliam Owen Roberts, Angharad Tomos, Robin Llywelyn, Mihangel Morgan, Owen Martell, Caryl Lewis, ac Angharad Price.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- egwyddorion ffuglen;
- technegau naratif;
- ôl-foderniaeth;
- y gymdeithas Gymraeg cyn ac ar ôl datganoli;
- astudiaeth o waith awduron o blith y canlynol: Robin Llywelyn, Mihangel Morgan, Angharad Tomos, Wiliam Owen Roberts, Owen Martell, Caryl Lewis ac Angharad Price.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- gwybod am rai o weithiau pwysicaf ffuglen y Gymraeg ers canol y 1980au;
- gwybod am hanfodion ffuglen yn y cyfnod diweddar;
- deall sut y mae gweithau ffuglen y cyfnod yn adlewyrchu cefndir cymdeithasol eu creu;
- trafod gweithau ffuglen yn feirniadol ar fwy nag un lefel;
- defnyddio technegau a therminoleg beirniadaeth lenyddol;
- dadansoddi arddull a thechnegau naratif mewn ffuglen;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
LEWIS, Caryl 2004. *Martha, Jac a Sianco.* Tal-y-bont: Y Lolfa
LLYWELYN, Robin 1992. *Seren Wen ar Gefndir Gwyn.* Llandysul: Gwasg Gomer
LLYWELYN, Robin 1995. *Y Dwr Mawr Llwyd.* Llandysul: Gwasg Gomer
MARTELL, Owen 2000. *Cadw dy Ffydd, Brawd.* Llandysul: Gwasg Gomer
MORGAN, Mihangel 1993. *Dirgel Ddyn.* Llandysul: Gwasg Gomer
MORGAN, Mihangel 1994. *Te Gyda'r Frenhines.* Llandysul: Gwasg Gomer
PRICE, Angharad 2002. *Rhwng Gwyn a Du [:] Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
PRICE, Angharad 2002. *O! Tyn y Gorchudd.* Llandysul: Gwasg Gomer
ROBERTS, Wiliam Owen 1985. *Bingo!* Pen-y-groes: Gwasg Dwyfor
ROBERTS, Wiliam Owen 1987. *Y Pla.* Bangor: Annwn
ROWLANDS, John gol. 2000. *Y Sêr yn eu Graddau: Golwg ar Ffurfafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
TOMOS, Angharad 1994. *Titrwm.* Tal-y-bont: Y Lolfa

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY2678 SAUNDERS LEWIS

DARLITHYDD: Dr E. Wyn James

NODAU'R MODIWL
Astudio bywyd a gwaith John Saunders Lewis (1893–1985), gyda sylw arbennig i'w weithiau llenyddol.

DISGRIFIAD BYR: Cyflwyniad i fywyd a gwaith un o'r ffigurau mwyaf dylanwadol a dadleuol yn holl hanes Cymru. Canolbwyntir yn arbennig ar ei gyfraniad fel llenor a beirniad llenyddol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- bywyd a meddwl Saunders Lewis;
- Saunders Lewis y beirniad llenyddol;
- Saunders Lewis y gwleidydd;
- astudiaeth o'r nofelau *Monica* a *Merch Gwern Hywel*;
- cerddi Saunders Lewis;
- datblygiad Saunders Lewis fel dramodydd, gan gynnwys astudiaeth fanwl o ddetholiad o'i ddramâu.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth am fywyd a gwaith Saunders Lewis a'i le ym mywyd Cymru;
- dangos cynefindra â llenyddiaeth feirniadol safonol yn y maes;
- ymateb yn briodol i'r defnydd o iaith ac o'r dychymyg mewn llenyddiaeth;
- gwerthfawrogi a chloriannu cyfraniad Saunders Lewis fel llenor a beirniad llenyddol;

- trin gweithiau llenyddol yn feirniadol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth;
- gosod gwaith Saunders Lewis yn ei gyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a syniadol;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:

DAVIES, Grahame 1999. *Sefyll yn y Bwlch. Cymru a'r Mudiad Gwrth-fodern: Astudiaeth o Waith R. S. Thomas, Saunders Lewis, T. S. Eliot a Simone Weil.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

GRIFFITHS, Bruce 1979. *Saunders Lewis,* Writers of Wales. Cardiff: University of Wales Press

HUGHES, Medwin gol.1993. *Saunders Lewis y Bardd.* Dinbych: Gwasg Gee

IFANS, Dafydd gol. 1992. *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: Gohebiaeth 1923–1983.* Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

JONES, Alun R. a Gwyn THOMAS eds. 1983. *Presenting Saunders Lewis.* Second edition, Cardiff: University of Wales Press

LLOYD, D. Tecwyn a Gwilym Rees HUGHES gol. 1975. *Saunders Lewis*. Abertawe: Christopher Davies

ROWLANDS, John 1990. *Saunders y Beirniad*, Llên y Llenor. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY2123 SGRIPTIO *(modiwl dwbl)*

DARLITHYDD: Ceri Elen Morris

NODAU'R MODIWL:
- datblygu sgiliau ysgrifennu creadigol yng nghyd-destun sgript deledu;
- datblygu'r gallu i drafod prif hanfodion sgript deledu, er enghraifft, thema, strwythur, deialogi, cymeriadu;
- creu ymwybyddiaeth o elfennau ymarferol a thechnegol sgript deledu.

DISGRIFIAD BYR: Meithrin a datblygu sgiliau sgriptio dramâu, yn bennaf ar gyfer y teledu, a chan gynnwys sgriptio opera sebon.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
Thema, strwythur ac elfennau technegol drama/ffilm deledu (o'u cymharu ag anghenion drama lwyfan); deialogi a chymeriadu; addasu o gyfrwng geiriol i gyfrwng gweledol.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- gwybod am hanfodion angenrheidiol sgript deledu;
- adnabod hanfodion addasu darn o lenyddiaeth ar gyfer y sgrin;
- deall hanfodion angenrheidiol sgript deledu a hanfodion ei addasu ar gyfer y

sgrin;
- deall gofynion elfennau technegol ac ymarferol mewn sgript deledu;
- dadansoddi a dehongli sgript deledu;
- cynllunio sgript deledu lwyddiannus;
- llunio sgript deledu wreiddiol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
BLUM, Richard 1984. *Television Writing.* London: Focal Press
BRUNSDON, Charlotte 2002 [1984]. 'Writing about Soap Opera'. Yn Len Masterman gol. *Television Mythologies*. London: Routledge
BUCKMAN, Peter 1984. *All for Love: A Study in Soap Operas.* London: Secker & Warburg
CARD, Orson Scott 1990. *Characters and Viewpoint.* London: Robinson Publishing
DIBELL, Ansen 1990. *Plot Writer's Workshop.* London: Robinson Publishing
TULLOCH, John 1990. *Television Drama*. London: Routledge

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a sesiynau trafod.

DULLIAU ASESU: Ffolio o waith sgriptio (80%); prawf dosbarth (20%).

CY3598 SOSIOIEITHYDDIAETH

DARLITHYDD: Dr Diarmait Mac Giolla Chríost

NODAU'R MODIWL:
Cyflwyno'r myfyrwyr i sosioieithyddiaeth y Gymraeg.

DISGRIFIAD BYR: Yn y modiwl hwn astudir sut y mae cefndir cymdeithasol yn dylanwadu ar ddefnydd unigolion o nodweddion ieithyddol penodol. Ystyrir ffactorau megis oedran, gwryw/benyw, addysg, gwaith, cyd-destun, pwnc a lleoliad a'u dylanwad posibl ar y ffordd yr amrywiwn ein patrymau ieithyddol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- cyflwyniad i sosioieithyddiaeth;
- astudiaethau arloesol ym Mhrydain ac yn UDA;
- astudiaeth sosioieithyddol o'r Gymraeg;
- methodoleg – samplo iaith a phoblogaeth – problemau gwaith maes;
- dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau;
- pwysigrwydd astudiaethau sosioieithyddol yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- sylweddoli a deall bwysiced yw'r berthynas rhwng iaith a gwead cymdeithasol;
- trafod lle rhwydweithiau cymdeithasol ym mhatrwm cynnal iaith neu dafodiaith;
- defnyddio dulliau samplo ieithyddol/samplo dynol;
- defnyddio sgiliau gwaith casglu yn y maes;
- defnyddio dulliau dadansoddi data a chyflwyno casgliadau.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
JONES, R. O. 1997. *'Hir Oes i'r Iaith': Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r*

Gymdeithas. Llandysul: Gwasg Gomer
JONES, R. O. 1976. 'Cydberthynas amrywiadau iaith a nodweddion cymdeithasol', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd,* 27, 51–64.
FASOLD, R. 1984. *The Sociolinguistics of Society.* Oxford: Blackwell
FASOLD, R. 1990. *Sociolinguistics of Language.* Oxford: Blackwell
FISHMAN, J. 1991. *Reversing Language Shift.* Clevedon: Multilingual Matters
LABOV, W. 1972. *Sociolinguistic Patterns.* Oxford: Blackwell
HUDSON, R. A. 1980. *Sociolinguistics* Cambridge: Cambridge University Press
THOMAS, Beth 1984. 'Linguistic and Non-linguistic Boundaries in N. E. Wales'. Yn M. J. Ball a G. E. Jones eds. *Welsh Phonology.* Cardiff: University of Wales Press, tt. 189–207.

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Arholiad 2 awr (100%).

CY3321 THEORI A BEIRNIADAETH LENYDDOL

DARLITHYDD: Dr Simon Brooks

NODAU'R MODIWL:
- gosod beirniadaeth lenyddol Gymraeg mewn cyd-destun rhyngwladol;
- meithrin sgiliau beirniadol.

DISGRIFIAD BYR:
Cyflwyniad i feirniadaeth a theori lenyddol gan ganolbwyntio ar yr ugeinfed ganrif. Gosodir beirniadaeth lenyddol Gymraeg mewn cyd-destun ehangach drwy ystyried traddodiadau beirniadol eraill. Canolbwyntir ar fudiadau megis strwythuraeth, ôl-strwythuraeth, dadadeiladaeth a beirniadaeth farcsaidd, ffeminyddol ac ôl-drefedigaethol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- Cefndir hanesyddol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- Rhai theoriïwyr llenyddol Cymraeg (e.e. Saunders Lewis, R.M. Jones)
- Ffurfiolaeth a strwythuraeth
- Ôl-strwythuraeth a dadadeiladaeth
- Marcsiaeth
- Ffeminyddiaeth
- Ôl-drefedigaethedd

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- gwybod am rai o nodweddion theori a beirniadaeth lenyddol Gymraeg;
- gwybod am rai o nodweddion theori a beirniadaeth lenyddol y tu allan i Gymru;
- deall rhai o gysyniadau pwysicaf theori a beirniadaeth lenyddol;
- defnyddio rhai technegau theori a beirniadaeth lenyddol wrth drafod testunau Cymraeg;
- defnyddio terminoleg theori a beirniadaeth lenyddol wrth drafod testunau Cymraeg;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cydsyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac

yn ddadansoddol;
- dangos meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig safonol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
AARON, Jane 1992. 'Gwahaniaeth a Lluosogedd', *Efrydiau Athronyddol*, 55, 33–46.
BROOKS, Simon 2004. *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
JEFFERSON, Ann & David Robey eds 1982. *Modern Literary Theory: A Comparative Introduction*. London: Batsford Academic and Educational
JONES, Robert Maynard 1974. *Tafod y Llenor: Gwersi ar Theori Llenyddiaeth*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
THOMAS, Owen gol. 2006. *Llenyddiaeth Mewn Theori.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
ROWLANDS, John gol. 1992. *Sglefrio ar Eiriau.* Llandysul: Gwasg Gomer
— 1990. *Saunders y Beirniad.* Caernarfon: Gwasg Pantycelyn

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd a seminarau.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY3835 WILLIAMS PANTYCELYN A'R EMYN

DARLITHYDD: Dr E. Wyn James

NODAU'R MODIWL:
Astudio bywyd a gwaith William Williams (1717–91), Pantycelyn, ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg, a datblygiad yr emyn Cymraeg.

DISGRIFIAD BYR: Astudiaeth o fywyd a gwaith William Williams, Pantycelyn (1717–91), a'i gyfraniad i'r traddodiad Methodistaidd mewn llenyddiaeth Gymraeg, traddodiad cynhyrfus ac ymchwilgar a fu'n un o'r elfennau mwyaf ffurfiannol a chynhyrchiol yn ein llên o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw. Astudir ei gerddi hir a'i gyfrolau rhyddiaith, a rhoi sylw arbennig i Williams Pantycelyn yr emynydd. Yr emyn yw un o brif ffurfiau llenyddol Cymraeg y cyfnod modern, a neilltuir rhan o'r modiwl hwn i drafod datblygiad yr emyn Cymraeg yn gyffredinol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- dechreuadau, twf a nodweddion y mudiad Methodistaidd;
- arolwg o fywyd a gwaith Williams Pantycelyn;
- y cefndir emynyddol i waith Pantycelyn;
- Williams Pantycelyn yr emynydd;
- llyfrau rhyddiaith Pantycelyn;
- cerddi hir Pantycelyn;
- golwg ar emynwyr y cyfnod 1760–1860, gan roi sylw arbennig i Morgan Rhys, Dafydd William, Thomas William, David Charles a Phedr Fardd;
- datblygiad yr emyn o tua 1860 ymlaen, gan roi sylw arbennig i Elfed ac W. Rhys Nicholas;
- dylanwad Pantycelyn ar lenyddiaeth yr 19eg a'r 20fed ganrif yn gyffredinol.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:
- dangos gwybodaeth ynghylch bywyd a gwaith William Williams, Pantycelyn, ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg, a datblygiad yr emyn Cymraeg;
- dangos cynefindra â llenyddiaeth feirniadol safonol yn y maes;
- ymateb yn briodol i'r defnydd o iaith ac o'r dychymyg mewn llenyddiaeth;
- gwerthfawrogi a chloriannu cynnyrch llenyddol Williams Pantycelyn a'r emyn Cymraeg;
- trin gweithiau llenyddol yn feirniadol o safbwynt crefft, mynegiant a syniadaeth;
- gosod cynnyrch llenyddol Williams Pantycelyn a'r emyn Cymraeg yn eu cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a syniadol;
- cynnull a chyflwyno gwybodaeth yn feirniadol, yn gydlynus ac yn raenus;
- crynhoi ac arfarnu cysyniadau a safbwyntiau ac ymdrin â hwy yn feirniadol ac yn ddadansoddol;
- dangos meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig safonol.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
HUGHES, Glyn Tegai 1983. *Williams Pantycelyn,* Writers of Wales. Cardiff: University of Wales Press
JONES, R. M. 1994. *Cyfriniaeth Gymraeg.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
JONES, R. Tudur 1987. *Saunders Lewis a Williams Pantycelyn*, Darlith Goffa Henry Lewis. Abertawe: Coleg Prifysgol Abertawe
LEWIS, Saunders 1927. *Williams Pantycelyn.* Llundain: Foyle's
MORGAN, Derec Llwyd 1981. *Y Diwygiad Mawr.* Llandysul: Gwasg Gomer
— gol. 1991. *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn.* Llandysul: Gwasg Gomer
Llên Cymru, 17: 3-4 (1993) – rhifyn arbennig ar Williams Pantycelyn

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau darllen.

DULLIAU ASESU: Traethawd hyd at 2,000 o eiriau (100%).

CY2124 YSGRIFENNU CREADIGOL *(modiwl dwbl)*

CYDLYNYDD: Ceri Elen Morris

NODAU'R MODIWL:
- datblygu sgiliau ysgrifennu rhyddiaith greadigol a barddoniaeth;
- meithrin ymwybyddiaeth o ofynion ffurfiau y stori fer, y nofel a barddoniaeth.

DISGRIFIAD BYR: Meithrin sgiliau ysgrifennu rhyddiaith greadigol a barddoniaeth yw nod y modiwl hwn. Bydd yn cwmpasu ffurfiau'r stori fer, y nofel, a barddoniaeth, a hynny drwy gyfrwng hyfforddiant ymarferol a thrafodaeth gyffredinol.

CYNNWYS Y MAES LLAFUR:
- ymdriniaeth gyffredinol â thema, strwythur a deialog mewn stori fer a nofel;
- anghenion ysgrifennu barddoniaeth;
- trafod yn feirniadol y grefft o adolygu *genres* fel y stori fer a'r nofel.

CANLYNIADAU'R DYSGU: Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwyr allu:

- adnabod rhai o nodweddion crefft y stori fer, y nofel a barddoniaeth;
- gwybod sut i adolygu llenyddiaeth greadigol;
- deall rhai o hanfodion creu llenyddiaeth mewn un neu ragor o'r ffurfiau canlynol: y stori fer, y nofel, barddoniaeth;
- trafod testunau creadigol yn feirniadol;
- strwythuro stori fer, nofel a/neu farddoniaeth;
- dadansoddi elfennau pwysicaf crefft y stori fer, y nofel a barddoniaeth;
- ymateb i ddarn o lenyddiaeth greadigol mewn prawf;
- ysgrifennu'n greadigol mewn un neu ragor o'r ffurfiau a ganlyn: y stori fer, y nofel, barddoniaeth;
- llunio adolygiad ar waith ysgrifenedig creadigol mewn un neu ragor o'r ffurfiau a ganlyn: y stori fer, y nofel, barddoniaeth.

RHESTR DDARLLEN ENGHREIFFTIOL:
Paratoir deunyddiau gan y tiwtoriaid unigol.

DULLIAU DYSGU: Darlithoedd, seminarau a gweithdai ymarferol.

DULLIAU ASESU: Gwaith cwrs (80%); prawf dosbarth (20%).